




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cymorth i Brynu – Cymru

## Cytundeb Gweinyddol y Darparwr

[www.llyw.cymru/cymorthibrynu](http://www.llyw.cymru/cymorthibrynu)



## Tudalen Gynnwys

1	Diffiniadau a dehongli	3
2	Dechrau a hyd	15
3	Cyllid Benthyciad Ecwiti – Amodau y Cytunwyd Arnynt	15
4	Taliad	16
5	Gwarantiadau a Chyfamodau	17
6	Rhwymedigaethau'r Darparwr	17
7	Gweithdrefn Cymorth i Brynu – Cymru	18
8	Newidiadau i Fanylion y Rhagolwg	20
9	Cymorth Gwladwriaethol	21
10	Amrywiadau	21
11	Diffyg daliad y Darparwr	21
12	Monitro, adolygiadau ac adrodd	22
13	Cofnodion a chyfrifon y Darparwr	23
14	Gwybodaeth a chyfrinachedd	24
15	Llyfr Agored	28
16	Datrys anghydfod	28
17	Dim asiantaeth	29
18	Aseinio ac is-gontractio	29
19	Eithrio hawliau trydydd parti	29
20	Cytundeb cyfan	29
21	Hysbysiadau	30
22	Toradwyedd	30
23	Hawliau cronnus a gorfodi	30
24	Hawlildiad	30
25	Cysylltiadau cyhoeddus a chyhoeddusrwydd	31
26	Diogelu Data	31
27	Cydweithredu	34
28	Y gyfraith lywodraethu ac awdurdodaeth	35
29	Goroesiad y Weithred hon	35
Atodlen	1 – Manylion y Rhagolwg	37
Atodlen	2 – Ffurflen Diweddariad Chwarterol ac Adroddiad Rhagolwg	38
Atodlen	3 – Rhag-amodau	40
Atodlen	4 – Gwarantiadau	41
Atodlen	5 – Ffurflen Gwybodaeth am Eiddo	44
Atodlen	6 – Canllaw i Brynwyr	45

# Gweithred Weinyddol y Darparwr Cymorth i Brynu – Cymru

## Partïon

- (1) **Help to Buy (Wales) Ltd** rhif y cwmni 08708403 y mae ei swyddfa gofrestredig yn 1 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ (yr **Asiantaeth**); a
- (2) Cliciwch yma i osod testun.. (Rhif cofrestru Cliciwch yma i osod testun..) y mae ei swyddfa gofrestredig yn Cliciwch yma i osod testun.. (y **Darparwr**)

## Cefndir

- (A) Mae'r Asiantaeth wedi cytuno yn unol â Chynllun Cymorth i Brynu – Cymru i ddarparu cyllid at ddiben darparu benthyciadau ecwiti a ddiogelir drwy forgais i Brynwyr Cymwys er mwyn caniatáu i Brynwyr Cymwys o'r fath brynu Anheddau Cymwys iddynt breswyllo ynddynt eu hunain.
- (B) Mae'r Darparwr wedi cofrestru gyda'r Asiantaeth er mwyn hyrwyddo a hwyluso mynediad i gynnyrch Cymorth i Brynu ymysg prynwyr posibl mewn perthynas â'i Anheddau Cymwys.
- (C) Mae'r partïon wedi ymrwmo i'r Weithred hon er mwyn cofnodi'r telerau yn ymwneud â gweinyddu Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru a galluogi'r Darparwr a'r Asiantaeth i ragweld gwerthiant posib yn y dyfodol (yn amodol ar alw gan y prynwr bob amser) er mwyn rheoli Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru yn effeithiol.

## Telerau y Cytunwyd Arnynt

### 1 Diffiniadau a dehongli

#### 1.1 Diffiniadau

Yn y Weithred hon, lle y bo'r cyd-destun yn caniatáu;

Mae **Gofynion Hysbysebu** yn golygu:

- (a) y fath ffurf o eiriad ynghyd â rhybuddion, enghreifftiau a darluniadau cyfradd ganrannol flynyddol fel y gall yr Asiantaeth ddarparu o dro i dro i'r Darparwr at ddibenion eu cynnwys o fewn unrhyw hysbyseb sy'n ymwneud â Chynllun Cymorth i Brynu – Cymru; a
- (b) holl ofynion Deddfwriaeth sy'n berthnasol i unrhyw hysbyseb yn ymwneud â Chynllun Cymorth i Brynu – Cymru;

Mae **Cyfraniad yr Asiantaeth** yn golygu cyfraniad yr Asiantaeth mewn gwerth fesul Annedd Gymwys (fel y nodir yn yr Awdurdod i Fwrw Ati neu fel y cytunwyd arno wedyn gyda'r Asiantaeth), a fydd rhwng 20% (ugain y cant) a 10% (10 y cant) o Werth Marchnadol yr Annedd Gymwys;

Mae **Amodau Lesddaliad yr Asiantaeth** yn golygu meini prawf isafswm canlynol yr Asiantaeth o ran unrhyw eiddo lesddaliad:

- (a) rhaid i les ar gyfer fflat neu randy fod am dymor o 125 mlynedd neu fwy;
- (b) rhaid i les ar gyfer tŷ fod am dymor o 250 mlynedd neu fwy;
- (c) rhaid i uchafswm derbynol y rhent tir gael ei gyfyngu i 0.1% o werth yr eiddo;
- (d) bydd adolygiadau rhent tir yn cael eu cysylltu â Mynegai Cyffredinol Prisiau Manwerthu'r Deyrnas Unedig ("RPI") neu unrhyw fynegai cyfatebol a gyhoeddwyd ac a ddilyswyd ac mae'n rhaid iddynt fod yn rhesymol (fel y pennir gan y Benthyciwr).

Mae **Gweithred** yn golygu Gweithred Weinyddol Darparwr Cymorth i Brynu – Cymru (gan gynnwys ei hatodlenni a'i hatodiadau (os o gwbl);

Mae **Rhoddw'r Benthyciadau Cymeradwy** yn golygu'r rhoddwr benthyciadau sy'n darparu cyllid y morgais i'r Prynwr Cymwys (a ddiogelir gan ffi gyfreithiol flaenorol) ac sydd yn:

- (a) Rhoddwr Benthyciadau Cymwys; ac
- (b) sydd yn ymwybodol o delerau Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru ac sydd wedi cadarnhau y bydd yn darparu benthyciadau blaenorol i Brynwyr Cymwys sy'n cymryd rhan yn y cynllun Cymorth i Brynu – Cymru;

Mae **Awdurdod i Fwrw Ati** yn golygu hysbysiad a roddir gan yr Asiantaeth i drawsgludwr y Prynwr Cymwys a'r Darparwr yn y fath fodd fel y gallai fod yn rhesymol angenrheidiol gan yr Asiantaeth o dro i dro;

Mae **Deddf Llwgwrwobrwyo** yn golygu Deddf Llwgwrwobrwyo 2010 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf honno ynghyd ag unrhyw ganllaw neu godau ymarfer a gyhoeddwyd gan yr adran berthnasol o'r llywodraeth yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth;

Mae **Diwrnod Busnes** yn golygu unrhyw ddiwrnod oni bai am ddydd Sadwrn, dydd Sul neu Ŵyl Banc statudol yng Nghymru a Lloegr neu unrhyw ddiwrnod rhwng 24 Rhagfyr a 3 Ionawr (yn gynwysedig);

Mae **Canllaw i Brynwyr** yn golygu Canllaw i Brynwyr Cymorth i Brynu – Cymru ar y ffurf a nodwyd yn Atodlen 6 neu ffurf o'r fath y gallai'r Asiantaeth ei nodi o dro i dro;

Mae **Rhag-amodau** yn golygu y rhag-amodau (gan gynnwys, pan fo'n berthnasol, dyddiadau ar gyfer bodloni'r un peth) a nodir yn Atodlen 3;

Mae **Gwybodaeth Gyfrinachol** yn golygu o ran yr Asiantaeth yr holl wybodaeth yn ymwneud â'r Asiantaeth neu fodolaeth neu delerau'r Weithred hon neu'n ymwneud ag unrhyw Fenthyciad Ecwiti lle y bo'r Darparwr yn dod yn ymwybodol yn rhinwedd ei rôl fel parti i'r Weithred hon neu a dderbyniwyd gan y Darparwr mewn perthynas â'r Weithred hon neu unrhyw Fenthyciad Ecwiti naill ai gan yr Asiantaeth neu unrhyw un o'i chynghorwyr neu gan unrhyw drydydd parti os cafwyd y wybodaeth oddi wrth y trydydd parti yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan yr Asiantaeth neu unrhyw rai o'i chynghorwyr ym mha bynnag ffurf yn y naill achos neu'r llall (gan gynnwys gwybodaeth a roddwyd ar lafar

ac unrhyw ffeil ddogfen electronig neu ddull arall o gofnodi neu gynrychioli gwybodaeth sy'n cynnwys, deillio o neu wedi copïo o wybodaeth o'r fath) ac, yn achos y Darparwr, mae'n golygu gwybodaeth benodol o'r fath fel y bydd y Darparwr wedi nodi i'r Asiantaeth yn ysgrifenedig cyn y dyddiad hwn fel gwybodaeth gyfrinachol at ddibenion y Weithred hon;

Mae **Cydsyniadau** yn golygu ac yn cynnwys unrhyw gymeradwyaeth, awdurdodiad, cydsyniad, eithriad, trwydded, hawlen, caniatâd neu gofrestriad angenrheidiol gan unrhyw awdurdod o'r llywodraeth neu arall, yr awdurdod cynllunio lleol, landlord, cyllidwr, tiffeddianwyr cyfagos neu unrhyw unigolyn arall y mae angen iddo ymgymryd â'r gwaith a chyflenwi'r Anheddau;

Mae **Cofrestrïad Defnyddiwr** yn golygu unrhyw gofrestrïad neu drwydded o dan ddeddfwriaeth neu reoliadau credyd defnyddwyr neu unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau perthnasol eraill y gallai fod angen i'r Darparwr eu cynnal o dro i dro (neu gaffael eu cynnal) at ddibenion bodloni ei rwymedigaethau yn gyfreithlon o dan y Weithred hon;

Mae **Canran y Cyfraniad** yn golygu'r ganran o'r Pris Prynu a nodwyd felly yn yr Awdurdod i Fwrw Ati perthnasol ac a gyfrifir fel a ganlyn:

Cyfraniad yr Asiantaeth

x 100

Pris Prynu

AR YR AMOD nad yw Canran y Cyfraniad mewn unrhyw achos yn fwy nag 20% (ugain y cant) nac yn llai na 10% (deg y cant);

Mae **Ffurflen Trawsgludo 1** yn golygu ymgymeriad sydd wedi'i gwblhau'n briodol er budd yr Asiantaeth gan drawsgludwr sy'n gweithredu ar ran y Prynwr Cymwys a'i Roddwr Benthyciadau Cymeradwy yn sylweddol yn y fath fodd fel y gallai fod yn rhesymol ofynnol gan yr Asiantaeth o dro i dro;

Mae **Gweithdrefn Datrys Anghydfod** yn golygu'r weithdrefn a amlinellir yn Amod 16;

Mae **Deddf Diogelu Data** yn golygu Deddf Diogelu Data 1998;

Mae **Annedd** yn golygu unrhyw uned i'w datblygu gan y Darparwr fel y bo o bosib yn gymwys ar gyfer cyllid yn unol â thelerau'r Weithred hon;

Mae **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol** yn golygu Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf hon o dro i dro ynghyd ag unrhyw ganllaw a/neu godau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â deddfwriaeth o'r fath;

Mae **Eithriad i'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol** yn golygu unrhyw eithriad perthnasol i'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol;

Mae **Annedd Gymwys** yn golygu Annedd a gaiff ei gwerthu gan y Darparwr lle y mae gan y Darparwr Fuddiant Cyfreithiol Diogel ac sydd:

(a) wedi'i lleoli yng Nghymru

- (b) yn addas ar gyfer meddiant llesionol fel datblygiad preswyl yn unol â gofynion y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (NHBC) neu ofynion cyfatebol;
- (c) gyda'r fantais o warant gan y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai neu warant debyg gan gwmni yswiriant cyfrifol fel y cytunwyd gan yr Asiantaeth (sy'n cynnwys ymhlith pethau eraill amddiffyn blaendaliadau'r prynwr rhwng cyfnewid a chwblhau);
- (d) yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a/neu ofynion cynllunio perthnasol, gan gynnwys rheoliadau adeiladu cyfredol sydd mewn grym ar y dyddiad Cwblhau Ymarferol;
- (e) sydd â Gwerth Marchnadol islaw'r Cyfyngiad Uchafswm;
- (f) nad yw'n cael ei darparu fel tai fforddiadwy i fodloni Cytundeb Cynllunio neu unrhyw Ganiatâd Cynllunio arall;
- (g) nid yw'n elwa ar grant neu nawdd cyhoeddus (ar wahân i'r Cyllid Benthyciad Ecwiti); a
- (h) lle y bo'n lesddaliad, y mae naill ai:
  - (i) wedi'i adeiladu ar dir sy'n eiddo i Ystad y Goron neu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu Lywodraeth Cymru; a/neu
  - (ii) yn fflat neu'n rhandy; neu
  - (iii) fel arall mae'r Asiantaeth wedi darparu ei chydysyniad ysgrifenedig iddo fod yn lesddaliad; ac ym mhob achos, mae'n bodloni Amodau Prydlesol yr Asiantaeth

Mae **Prynwr Cymwys** yn golygu unigolyn:

- (a) sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd a gyhoeddir o dro i dro gan yr Asiantaeth mewn perthynas â Chymorth i Brynu;
- (b) a gymeradwywyd yn gymwys gan yr Asiantaeth;
- (c) sy'n cymryd arwystl sefydlog cyntaf ymlaen llaw gyda Rhoddwr Benthyciadau Cymeradwy;
- (d) nad yw'n gysylltiedig â'r Darparwr (ar wahân i pan fo'r Asiantaeth yn cadarnhau yn ysgrifenedig bod unrhyw unigolyn o'r fath yn cymhwyso fel Prynwr Cymwys); ac
- (e) nad oes ganddo (neu ni fydd ganddo ar adeg prynu'r Annedd Gymwys) fuddiant mewn unrhyw annedd arall.

Mae **Benthyciad Ecwiti** yn golygu'r benthyciad ecwiti a wnaed gan yr Asiantaeth i Brynwr Cymwys a ddiogelwyd drwy forgais er budd yr Asiantaeth;

Mae **Cyllid Benthyciad Ecwiti** yn golygu'r swm sy'n daladwy gan yr Asiantaeth ar sail uned-i-uned, a gaiff ei osod fel yr hyn sy'n cyfateb i Gyfraniad yr Asiantaeth o ran pob Annedd Gymwys;

Mae **Cyllid Ecwiti** yn golygu'r arian a wnaed ar gael i'r Asiantaeth o dro i dro er mwyn galluogi'r Asiantaeth i gyllido pob Benthyciad Ecwiti o dan y Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru;

Mae **Gofyniad Cyllid Benthyciad Ecwiti a Ragamcanwyd** yn golygu'r swm cyfanredol o Gyllid Benthyciad Ecwiti y rhagwelwyd gan y Darparwr a fydd ei angen mewn perthynas â gwerthiannau a ragwelir o Anheddau Cymwys ym mhob blwyddyn fel yr amlinellir ym Manylion y Rhagolwg

Mae **Gwybodaeth a Eithriwyd** yn golygu unrhyw Wybodaeth a ddynodwyd ei bod yn syrthio, neu o bosib yn syrthio, o fewn yr Eithriadau i'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol;

Mae'r **Awdurdod Ymddygiad Ariannol** yn golygu'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ac unrhyw olynydd neu gorff sy'n cymryd drosto ei swyddogaethau rheoleiddiol;

Mae **Deddf Rhyddid Gwybodaeth** yn golygu Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf hon o dro i dro ynghyd ag unrhyw ganllaw a/neu godau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â deddfwriaeth o'r fath;

Mae **Eithriad Deddf Rhyddid Gwybodaeth** yn golygu unrhyw eithriad perthnasol i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;

Mae **Manylion y Rhagolwg** yn golygu ar gyfer pob Blwyddyn (fel y bo'n berthnasol):

- (a) y Gofyniad Cyllid Benthyciad Ecwiti a Ragamcanwyd;
- (b) y Niferoedd a Ragwelwyd; a'r
- (c) Rhagolygon Gwerthiant a Marchnata.

fel yr amlinellwyd yn Atodlen 1 ac fel y gellid eu diwygio o dro i dro gan y partion yn unol ag Amod 8.

Mae'r **Nifer a Ragwelwyd** yn golygu'r nifer o Anheddau Cymwys a ragwelwyd y byddant yn cael eu gwerthu gan y Darparwr, fel y rhagwelwyd y caiff ei wireddu cyn 31 Mawrth ar gyfer y Flwyddyn honno fel yr amlinellwyd ym Manylion y Rhagolwg;

Mae **Arfer Da'r Diwydiant** yn golygu'r graddau o sgil, gofal, doethineb a rhagwelediad ac arfer gweithredu y gellid eu disgwyl yn rhesymol ac fel arfer o dro i dro gan gontractwr medrus a phrofiadol (sy'n ymgymryd â'r un fath o waith ar gyfer y Darparwr neu unrhyw rai o'i isgontractwr) o dan yr un amgylchiadau neu amgylchiadau tebyg;

Mae **Cwmni Grŵp** yn golygu unrhyw gwmni sydd:

- (a) yn is-gwmni neu gwmni daliannol y Darparwr; neu
- (b) yn is-gwmni i gwmni daliannol y Darparwr;

pan fod gan yr is-gwmni a'r cwmni daliannol yr ystyron a briodolwyd iddynt yn Adran 1159 Deddf Cwmnïau 2006;

Mae **Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru** yn golygu menter perchentyaeth Llywodraeth Cymru o'r un enw ag a ddisgrifiwyd o fewn Canllaw Cyfranogi i Adeiladwyr a Datblygwyr

Tai Cymorth i Brynu – Cymru a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth ac fel y'i diwygiwyd o dro i dro;

Mae **Cymelliadau** yn golygu unrhyw ysgogiad neu gymhelliad i Brynwyr Cymwys Anheddau Cymwys sy'n fwy na'r fanyleb safonol ar gyfer anheddau o'r fath (gan gynnwys heb gyfyngiad unrhyw gymhorthdal, gwasanaethau, taliad arian-yn-ôl, nwyddau gwynion, gosodiadau neu ffitiadau ychwanegol neu fanylebau wedi'u gwella);

**Gwybodaeth:**

- (a) mewn perthynas â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae ganddi'r ystyr a nodir o dan adran 84 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth; ac
- (b) mewn perthynas â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, mae ganddi'r ystyr a roddir o dan ddiffiniad "gwybodaeth amgylcheddol" yn adran 2 y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol;

Mae gan y **Comisiynydd Gwybodaeth** yr ystyr a nodir o dan Adran 6 Deddf Diogelu Data 1998;

Mae **Digwyddiad Methdaliad** yn golygu unrhyw rai o'r canlynol yn digwydd o ran y Darparwr:

- (a) mae'n methu neu'n cyfaddef anallu i dalu ei ddyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus, yn gohirio gwneud taliadau ar unrhyw rai o'i ddyledion neu, oherwydd anawsterau ariannol gwirioneddol neu a ragwelir, yn dechrau trafodaethau gydag un neu fwy o'i gredydwyd gyda golwg ar ail-amserlennu ei ddyledrwydd;
- (b) mae gwerth ei asedau yn llai na'i rwymedigaethau (gan gyfrif rhwymedigaethau amodol ac arfaethedig);
- (c) cyhoeddir moratoriwm o ran unrhyw ddyledrwydd;
- (d) cymerir unrhyw weithredu corfforaethol, achosion cyfreithiol neu weithdrefn arall o ran:
  - i gohirio taliadau, moratoriwm o unrhyw ddyledrwydd, dirwyn i ben, diddymiad, yn nwylo gweinyddwyr neu aildrefnu (drwy drefniant gwirfoddol, cynllun trefniant neu fel arall) ar wahân i ddiddymiad solfent neu aildrefnu ar delerau a gymeradwywyd yn flaenorol gan yr Asiantaeth (ni ddylid atal neu ohirio cymeradwyaeth o'r fath yn afresymol);
  - ii cyfansoddiad, cyfaddawd, aseiniad neu drefniant gydag unrhyw rai o'i gredydwyd;
  - iii penodi datodwr (ar wahân i'r un mewn perthynas â diddymiad solfent) ar delerau y cytunwyd arnynt ynghynt gan yr Asiantaeth (ni ddylid atal neu ohirio cymeradwyaeth o'r fath yn afresymol), derbyniwr, derbyniwr gweinyddol, gweinyddwr, rheolwr gorfodol neu swyddog tebyg arall mewn perthynas â'r Darparwr;
  - iv gorfodi unrhyw Warrant dros unrhyw asedau'r Darparwr; neu



v unrhyw weithdrefn neu gam cydweddol a gymerir mewn unrhyw awdurdodaeth,

ar wahân i unrhyw ddeiseb dirwyn i ben sy'n wamal neu flinderus ac a gaiff ei rhyddhau, ei hatal neu ei gwrthod o fewn deg (10) Diwrnod Gwaith o'i dechrau; neu

- (e) unrhyw ddifeddiant, atodiad, atafaeliad, trallod neu weithredu sy'n effeithio ar unrhyw ased neu asedau'r Darparwr;

Bydd **Hawliau Eiddo Deallusol** yn cynnwys heb gyfyngiad yr holl hawliau i, ac unrhyw fuddiant mewn, unrhyw batentau, dyluniadau, nodau masnach, hawlfraint, gallu, cyfrinachau'r fasnach ac unrhyw hawliau perchnogol eraill neu fathau o eiddo deallusol (y gellid eu diogelu drwy eu cofrestru neu beidio) o ran unrhyw dechnoleg, cysyniad, syniad, data, rhaglen neu feddalwedd arall (gan gynnwys codau ffynhonnell a gwrthrych), manyleb, cynllun, llun, amserlen, cofnodion, gohebiaeth, trefn, fformiwla, rhaglen, dyluniad, system, logo proses, marc, arddull, neu unrhyw fater arall neu beth, sy'n bodoli neu a ddychmygwyd, a ddefnyddiwyd, a ddatblygwyd neu a gynhyrchwyd gan unrhyw unigolyn;

Mae **Deddfwriaeth** yn golygu:

- (a) unrhyw Ddeddf Seneddol;
- (b) unrhyw is-ddeddfwriaeth o fewn yr ystyr yn Adran 21(1) Deddf Dehongli 1978;
- (c) unrhyw ymarfer yr Uchelfraint Frenhinol;
- (d) unrhyw hawl gymunedol orfodadwy o fewn ystyr Adran 2 Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972; ac
- (e) unrhyw Ddeddf, mesur gan y Cynulliad neu is-ddeddfwriaeth a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 neu a wnaed fel arall o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

ym mhob achos yn y Deyrnas Unedig;

Mae **Dyddiad Stop Pell** yn golygu 23 Rhagfyr 2021 neu ddyddiad arall o'r fath y gellid cytuno arno rhwng y partïon;

Mae **Colledion** yn golygu'r holl iawndal, colledion, rhwymedigaethau, costau, treuliau (gan gynnwys ffioedd a threuliau cyfreithiol a phroffesiynol eraill) a'r taliadau pa un ai eu bod yn codi o dan statud, contract neu ddeddf gyffredin, neu mewn cysylltiad â dyfarniadau, achosion, costau mewnol neu orchmynion a ddioddefwyd neu a ysgwyddwyd gan yr Asiantaeth, gan gynnwys llog ar y Gyfradd Ragnodedig, a dylai unrhyw log o'r fath redeg o'r dyddiad y gwnaed y Colledion tan y dyddiad y mae'r Asiantaeth yn derbyn ad-daliad llawn o'i golledion (cyn ac ar ôl y dyfarniad);

Mae **Gwerth Marchnadol** yn golygu'r pris gorau y gellid ei gael yn rhesymol ar y farchnad agored ar gyfer pob Annedd Gymwys (heb ystyried bodolaeth y Weithred hon ac argaeledd y Benthyciad Ecwiti) fel y cadarnhawyd gan yr adroddiad prisio a gafodd y Rhoddwr Benthyciadau Cymwys (neu fel y nodwyd yn y cynnig morgais pan nad yw'r

adroddiad prisio ar gael) mewn perthynas â phrynu Annedd Gymwys unigol;

Mae **Effaith Niweidiol Sylweddol** yn golygu unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiadau yn y presennol neu'r dyfodol a allai, ym marn resymol yr Asiantaeth:

- (a) effeithio'n sylweddol ar allu'r Darparwr i berfformio a chydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Weithred hon;
- (b) gael effaith niweidiol sylweddol ar asedau'r busnes neu gyflwr ariannol y Darparwr; neu
- (c) gael effaith niweidiol sylweddol ar ddilysrwydd neu orfodadwyedd, neu effeithiolrwydd, unrhyw hawliau neu rwymedïau'r Asiantaeth o dan y Weithred hon neu unrhyw Fenthyciad Ecwiti;

Mae **Cyfyngiad Uchafswm** yn golygu'r swm a osodwyd gan yr Asiantaeth o dro i dro ac, ar y dyddiad hwn, sydd yn £300,000 (tri chan mil o bunnoedd);

Mae **NHBC** yn golygu'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai;

Mae **Llyfr Agored** yn golygu datgan yr holl gydrannau pris, gan gynnwys maint yr elw, gorbenion y swyddfa ganolog, gorbenion y safle, rhagarweiniadau, treuliau annisgwyl, a chost yr holl ddeunyddiau, nwyddau, offer, gwaith a gwasanaethau, gan wneud y cyfan ac unrhyw lyfrau cyfrifon, gohebiaeth, cytundebau, archebion, anfonebau, derbynebau a dogfennau eraill ar gael i'w harchwilio;

Mae **Cymelliadau a Ganiateir** yn golygu Cymelliadau i werth sy'n gyfartal i'r rheini a fyddai ar gael i unrhyw brynwr yr Annedd Gymwys berthnasol pa un ai a yw'n Brynwr Cymwys sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru ai peidio AR YR AMOD:

- (a) na fydd gwerth Cymelliadau o'r fath ar lefel y bydd eu bodolaeth neu absenoldeb yn effeithio ar Werth Marchnadol yr Anheddau Cymwys;
- (b) na fydd gwerth Cymelliadau o'r fath mewn unrhyw ddigwyddiad yn fwy na 5% (pump y cant) o Bris Prynu Llawn yr Annedd Gymwys; a
- (c) bod Cymelliadau o'r fath yn cydymffurfio â gofynion y Cyngor Benthycwyr Morgeisi ac y byddant, er mwyn osgoi amheuaeth, yn cael eu datgelu ar ffurflen cymelliadau'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi;

Mae gan **Ddata Personol** yr ystyr a briodolwyd iddo yn y Ddeddf Diogelu Data;

Mae **Cytundeb Cynllunio** yn golygu cytundeb o ran ac yn effeithio ar unrhyw Annedd a wnaed yn unol ag Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a/neu Adran 33 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982;

Mae **Caniatâd Cynllunio** yn golygu rhoi caniatâd cynllunio manwl naill ai gan yr awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru;

Mae **Cwblhad Ymarferol** yn golygu bod yr Annedd wedi'i chwblhau yn unol â thelerau'r contract adeiladu perthnasol a'i bod yn addas ar gyfer meddiant llesion fel annedd breswyl yn unol â gofynion y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai neu ofynion tebyg sy'n

gyfredol ar ddiwrnod yr arolygiad, yn amodol yn unig ar fodolaeth mân ddiffygion a/neu fân esgeulustod ar adeg yr arolygiad y gellid eu cywiro neu eu gwneud heb ymyrryd yn sylweddol ar y defnydd llesiannol a'r mwynhad o'r Annedd ac a fyddai'n rhesymol i'w cynnwys ar restr mân broblemau;

Mae **Cyfradd Ragnodedig** yn golygu 2% (dau y cant) uwchben gyfradd fenthyca sylfaenol The Royal Bank of Scotland plc o dro i dro;

Mae gan **Proses/Proseswyd/Prosesu** yr ystyr a nodir i'r ymadrodd o dan Adran 1, Rhan 1 y Ddeddf Diogelu Data;

Mae **Gweithred Waherddedig** yn golygu:

- (a) cynnig, rhoi neu gytuno i roi i unrhyw was yr Asiantaeth unrhyw rodd neu ystyriaeth o unrhyw fath fel cymhelliad neu wobwr:
  - i am wneud neu beidio â gwneud (neu wedi gwneud neu wedi peidio â gwneud) unrhyw weithred mewn perthynas â chael neu berfformiad y Weithred hon; neu
  - ii am ddangos neu beidio â dangos ffafriaeth neu ddiffyg ffafriaeth i unrhyw unigolyn mewn perthynas â'r Weithred hon;
- (b) ymrwymo i'r Weithred hon neu unrhyw gytundeb arall gyda'r Asiantaeth sy'n berthnasol i'r Weithred hon y mae comisiwn wedi'i dalu mewn cysylltiad ag ef neu y cytunwyd i'w dalu gan y Darparwr neu ar ei ran, neu hyd y gŵyr, oni bai fod manylion unrhyw gomisiwn o'r fath a thelerau ac amodau unrhyw gytundeb o'r fath ar gyfer taliad amdano wedi'u datgan yn ysgrifenedig i'r Asiantaeth cyn ymrwymo i'r cytundeb perthnasol;
- (c) cyflawni unrhyw drosedd:
  - i cyflawni troseddau mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus o dan ddeddfwriaeth;
  - ii y gyfraith gyffredin mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus mewn perthynas â'r Weithred hon; neu
  - iii o dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo; neu
- (d) dwyllo neu geisio twyllo neu gynllwynio i dwyllo'r Asiantaeth;

Mae **Ffurflen Gwybodaeth am Eiddo** yn golygu hysbysiad a gyflwynwyd gan y Prynwr Cymwys i'r Asiantaeth yn darparu manylion yr Annedd Gymwys ar y ffurf y nodir yn Atodlen 5 neu ar y fath ffurf y gallai'r Asiantaeth ei phennu o dro i dro.

Mae **Diffyg daliad y Darparwr** yn golygu:

- (a) mae'r Darparwr neu, lle y bo'n briodol, unrhyw is-gontractwr, cyflogai, swyddog neu asiant, yn cyflawni Gweithred Waharddedig (o ran yr hyn nad yw'r Amod Hawlildiad wedi'i fodloni);
- (b) mae Digwyddiad Methdaliad yn digwydd o ran y Darparwr a/neu mae'r Darparwr yn gorffen masnachu;

- (c) mae newid i amgylchiadau ariannol neu fasnachol y Darparwr a fyddai ym marn yr Asiantaeth yn cael Effaith Niweidiol Sylweddol;
- (d) daw'r Asiantaeth yn ymwybodol o dorri unrhyw Warantiadau neu anghywirdeb yn y gynrychiolaeth a wnaed gan y Darparwr o ran y Weithred hon;
- (e) mae'r Darparwr yn methu â chynnal unrhyw Gofrestriad Defnyddiwr gofynnol neu gydymffurfio â'r Gofynion Hysbysebu;
- (f) mae'r Darparwr yn torri'r Weithred hon mewn modd a fyddai, ym marn resymol yr Asiantaeth, yn cael (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag unrhyw doriadau blaenorol) Effaith Niweidiol Sylweddol;
- (g) mae unrhyw gamau gweithredu gorfodi yn cael eu cymryd neu mae hawl arall yn cael ei gorfodi o ran y Darparwr;
- (h) mae unrhyw uwch-gyflogai, swyddog gweithredol, aelod bwrdd neu bartner (fel y bo'n berthnasol) y Darparwr yn cael ei euogfarnu o anonestrwydd;
- (i) nid yw'r Anheddau Cymwys wedi'u cwblhau yn unol â'r Safonau Gofynnol; neu
- (j) daw'r Asiantaeth yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i unrhyw wybodaeth a ddarparwyd ar unrhyw adeg gan neu ar ran y Darparwr i'r Asiantaeth, y mae'r Asiantaeth, yn gweithredu yn ôl ei disgrisiwn llwyr, yn ystyried eu bod yn cael Effaith Niweidiol Sylweddol.

Mae **Personél y Darparwr** yn golygu holl gyflogeion, asiantiaid, ymgynghorwyr a chontractwyr y Darparwr a/neu unrhyw isgontractwyr;

Mae **Cyfreithiwr y Darparwr** yn golygu cyfreithiwr y rhoddwyd ei fanylion yn ysgrifenedig i'r Asiantaeth ac mae'r Asiantaeth yn ysgrifennu ato o dro i dro fel y cyfreithiwr a benodwyd gan y Darparwr o dan y Weithred hon;

Mae **Pris Prynu** yn golygu pris prynu llawn unrhyw Anedd Gymwys sy'n daladwy i'r Darparwr gan unrhyw brynwr ac ni all fod yn fwy na'r Cyfyngiad Uchafswm;

Mae **Rhoddwyr Benthyciadau Cymwys** yn golygu sefydliad a awdurdodwyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn unol â Deddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000 i "ymrwymo i gontract morgais a reoleiddir fel rhoddwr benthyciadau" a chaiff yr ymadrodd "Rhoddwyr Benthyciadau Cymwys" ei ddehongli yn unol â hynny;

Mae **Diweddariad Chwarterol ac Adroddiad Rhagolwg** yn golygu adroddiad a osodir ar y ffurf a nodwyd yn Atodlen 2 neu unrhyw ffurf arall y mae'r Asiantaeth yn ei nodi;

Mae **Rheoliadau** yn golygu'r rheoliadau a gyhoeddir gan yr Asiantaeth o dro i dro mewn perthynas â'r cynllun Cymorth i Brynu – Cymru, gan gynnwys unrhyw ofynion perthnasol a chyfredol a gyhoeddir gan yr Asiantaeth;

Mae **Cyrrff Rheoleiddio** yn golygu'r adrannau hynny o Lywodraeth Cymru ac endidau rheoleiddio, statudol ac eraill, pwyllgorau a chyrrff sydd, pa un ai eu bod o dan statud, rheolau, rheoliadau, codau ymarfer neu fel arall, â hawl rheoleiddio, ymchwilio neu

ddylanwadu ar y materion yr ymdrinnir â hwy yn y Weithred hon neu unrhyw faterion eraill yr Asiantaeth, gan gynnwys (o 1 Ebrill 2014) yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a chaiff yr ymadrodd "Corff Rheoleiddio" ei ddehongli yn unol â hynny;

Bydd gan **Cais am Wybodaeth** yr ystyr a nodwyd yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu unrhyw gais am wybodaeth o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a allai ymwneud ag unrhyw Annedd a/neu Safle, y Weithred hon, unrhyw Fenthyciad Ecwiti, neu unrhyw weithgareddau neu fusnes yr Asiantaeth;

Mae'r **Safonau Gofynnol** yn golygu holl ofynion y Weithred hon, Arfer Da'r Diwydiant, a'r holl Gydsyniadau a Deddfwriaeth;

Mae **Rhagolygon Gwerthiant a Marchnata** yn golygu'r rhagolygon priodol ar gyfer Anheddau Cymwys yn cael eu marchnata'n weithredol a'u gwerthu. Caiff cyfeiriadau at "**Ragolygon Gwerthiant**" a "**Rhagolygon Marchnata**" eu dehongli yn unol â hynny;

Mae **Buddiant Cyfreithiol Diogel** yn golygu bod gan y Darparwr neu bydd ganddo mewn perthynas â'r Annedd Gymwys:

- (a) deitl rhydd-ddaliad wedi'i gofrestru gyda theitl absoliwt; neu
- (b) deitl lesddaliad (lle bo gan y lesddaliad hyd heb ddarfod o leiaf 250 mlynedd ar gyfer tŷ neu 125 mlynedd ar gyfer fflat neu randy) wedi'i gofrestru gyda theitl absoliwt; ac
- (c) ymhob achos, rheolaeth ddigonol dros berchnogaeth tir yr Annedd Gymwys er mwyn caffael cydymffurfiaeth â gofynion y Weithred hon o ran pob uned.

Mae **Gwarant** yn golygu morgais, arwystl, addewid, hawlrwym neu fuddiant gwarant arall sy'n diogelu unrhyw rwymedigaeth gan unrhyw berson neu unrhyw gytundeb neu drefniant arall gydag effaith debyg (megis gwerthiant neu les ac adles, cyfrif a flociwyd, cydbwysu neu drefniant "ased diffygiol" tebyg);

Mae **Digwyddiad Arwyddocaol** yn golygu digwyddiad y gellid ystyried yn rhesymol ei fod yn niweidio enw da'r Asiantaeth neu Gynllun Cymorth i Brynu – Cymru;

Mae **Safle** yn golygu safle'r datblygiad cyffredinol y mae'r Annedd wedi'i lleoli arno;

Mae **Amod Hawliidiad** yn golygu darparu tystiolaeth foddhaol gan y Darparwr i'r Asiantaeth fod y Weithred Waharddedig wedi'i chyflawni gan:

- (a) gyflogai yn gweithredu'n annibynnol o'r Darparwr ac felly caiff cyflogaeth y cyflogai ei therfynu o fewn ugain (20) Diwrnod Gwaith i'r Asiantaeth gyflwyno hysbysiad i'r Darparwr o Weithred Waharddedig o'r fath; neu
- (b) is-gontractwr (neu unrhyw gyflogai is-gontractwr nad yw'n ymddwyn yn annibynnol o'r is-gontractwr) a chaiff yr is-gontractwr perthnasol ei derfynu o fewn ugain (20) Diwrnod Gwaith i'r Asiantaeth gyflwyno hysbysiad i'r Darparwr o Weithred Waharddedig o'r fath; neu
- (c) gyflogai is-gontractwr sy'n gweithredu yn annibynnol ar is-gontractwr o'r fath ac mae cyflogaeth cyflogai o'r fath yn cael ei derfynu o fewn ugain (20) Diwrnod Gwaith i'r Asiantaeth gyflwyno hysbysiad i'r Darparwr o Weithred

Waharddedig o'r fath; neu

- (d) unrhyw unigolyn na nodir yn rhannau (a), (b) neu (c) ac mae'r Darparwr (neu unrhyw is-gontractwr) wedi torri cysylltiadau ag unigolyn o'r fath (pa un ai bod hwn drwy ei gyflogaeth, penodiad neu unrhyw gyswllt arall) o fewn ugain (20) Diwrnod Gwaith o'r Asiantaeth yn cyflwyno hysbysiad i'r Darparwr o Weithred Waharddedig o'r fath;

pan fo gweithredu'n annibynnol yn golygu peidio â gweithredu gydag awdurdod neu wybodaeth un neu fwy o gyfarwyddwyr y Darparwr neu is-gontractwr perthnasol;

Mae **Gwarantiaid** yn golygu unrhyw warantiaid a nodir yn Atodlen 4;

Mae **Blwyddyn** yn golygu'r cyfnod sy'n dechrau ar, ac yn cynnwys, 1 Ebrill mewn unrhyw flwyddyn galendr ac yn dod i ben ar 31 Mawrth y flwyddyn galendr ddilynol, ar wahân i'r Flwyddyn derfynol, a fydd yn dod i ben ar y Dyddiad Stop Pell, gyda Blwyddyn 1 yn gyfnod o 1 Ebrill 2013 hyd at 31 Mawrth 2014;

## 1.2 Dehongliad

- 1.2.1 Mae'r gwrywaidd yn cynnwys y benywaidd ac i'r gwrthwyneb.
- 1.2.2 Mae'r unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb.
- 1.2.3 Mae unrhyw gyfeiriad yn y Weithred hon at unrhyw Amod, is-amod, paragraff, atodlen, atodiad neu bennawd adran, ar wahân i pan ei fod yn cael ei nodi i'r gwrthwyneb yn benodol, yn gyfeiriad at Amod, is-amod, paragraff, atodlen, atodiad neu bennawd adran o'r fath yn y Weithred hon.
- 1.2.4 Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Weithred hon at unrhyw ddogfen arall yn cynnwys (ar wahân i pan nodir i'r gwrthwyneb yn benodol) unrhyw amrywiad, diwygiad neu atodiad at ddogfen o'r fath i'r graddau nad yw amrywiad, diwygiad neu atodiad o'r fath yn cael ei wahardd o dan delerau'r Weithred hon.
- 1.2.5 Bydd unrhyw gyfeiriad at unrhyw ddeddfiad, gorchymyn, rheoliad, rheol neu offeryn tebyg (ar wahân i pan nodir i'r gwrthwyneb yn benodol) yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y deddfiad, gorchymyn, rheoliad, rheol neu offeryn (gan gynnwys offeryn yr UE) fel y'i diwygiwyd, disodlwyd, cyd-gyfnwrthwyd neu ailddeddfwyd.
- 1.2.6 Mae cyfeiriad at unigolyn yn cynnwys cwmnïau, partneriaethau a chorfforaethau a'u hollynwyr ac aseineion neu drosglwyddeion a ganiateir.
- 1.2.7 Mae penawdau at ddiben cyfleustra yn unig.
- 1.2.8 Bydd amser o'r diwrnod yn cyfeirio at amser yn y DU.
- 1.2.9 Mae parti'n golygu parti i'r Weithred hon.
- 1.2.10 Mae'r geiriau 'yn cynnwys' neu 'gan gynnwys' i'w dehongli heb gyfyngiad.
- 1.2.11 Bydd gweithred neu esgeulustod bwriadol gan unrhyw unigolyn yn eithrio gweithredoedd neu esgeulustod a oedd o fewn cwmpas myfyrdod y partiön neu a ddarparwyd ar eu cyfer fel arall ar gyfer y Weithred hon.

- 1.2.12 Mewn unrhyw achos pan fo angen cydsyniad neu gymeradwyaeth yr Asiantaeth (neu unrhyw swyddog o'r Asiantaeth) neu rhoddir hysbysiad i'r Asiantaeth, bydd cydsyniad neu gymeradwyaeth neu hysbysiad o'r fath ond yn cael ei roi yn ddilys os yw'n ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi gan unigolyn o'r fath fel y nodwyd gan yr Asiantaeth drwy hysbysu'r Darparwr yn ysgrifenedig.
- 1.2.13 Mae rhwymedigaeth i wneud unrhyw beth yn cynnwys rhwymedigaeth i achosi iddo gael ei wneud.
- 1.2.14 Mae unrhyw gyfyngiad yn cynnwys rhwymedigaeth i beidio â chaniatáu torri'r cyfyngiad.
- 1.2.15 Pan fo dau neu fwy o unigolion yn cael eu heffeithio gan y rhwymedigaethau o dan y Weithred hon, mae rhwymedigaethau o'r fath i rwymo pob unigolyn o'r fath ar y cyd a bob yn un.
- 1.2.16 Ac eithrio pan fo bwriad i'r gwrthwyneb yn cael ei ddangos, neu pan fo disgresiwn penodol yn cael ei roi gan y Weithred hon, bydd yr Asiantaeth yn gweithredu'n rhesymol wrth weithredu ei hawliau trwy hyn.
- 1.2.17 Os oes unrhyw amwysedd neu wrthdaro rhwng y telerau ymhlyg a'r telerau penodol yn y Weithred hon yna'r telerau penodol fydd drechaf.
- 1.2.18 Ni fydd unrhyw adolygiad, sylw neu gymeradwyaeth gan yr Asiantaeth o dan ddarpariaethau'r Weithred hon yn gweithredu i eithrio neu gyfyngu ar rwymedigaethau neu ymrwymadau'r Darparwr ac eithrio pan fo'r Asiantaeth wedi cadarnhau'r adolygiad, sylw neu gymeradwyaeth honno yn ysgrifenedig.
- 1.2.19 Bydd y Darparwr yn gyfrifol am weithredoedd neu ddiffygion yn erbyn yr Asiantaeth gan unrhyw rai o'i is-gontractwyr, swyddogion, cyflogeion ac asiantiaid fel pe baent yn weithredoedd neu ddiffygion gan y Darparwr.
- 1.2.20 Ni fydd rhoi unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, archwiliad, cydnabyddiaeth, gwybodaeth am delerau unrhyw gytundeb neu ddogfen neu adolygu unrhyw ddogfen neu gam gweithredu gan neu ar ran yr Asiantaeth, oni bai y nodir yn benodol fel arall yn y Weithred hon, neu y cytunwyd yn ysgrifenedig gan yr Asiantaeth, yn rhyddhau'r Darparwr oddi wrth unrhyw rai o'r rhwymedigaethau o dan y Weithred hon, neu unrhyw ddyletswydd a allai fod ganddo trwy hyn i sicrhau cywirdeb, manwl gywirdeb neu addasrwydd y mater neu'r peth sy'n destun cymeradwyaeth, cydsyniad, archwiliad, cydnabyddiaeth, neu wybodaeth na chyflwyno, gosod, neu awgrymu unrhyw rwymedigaeth neu gyfrifoldeb ar neu ar ran yr Asiantaeth mewn perthynas â neu'n ymwneud â'r mater y rhoddyd cymeradwyaeth, cydsyniad, archwiliad, cydnabyddiaeth neu y gwnaed adolygiad iddo.

## 2 Dechrau a hyd

- 2.1 Yn unol ag Amod 2.2 bob amser, bydd y Weithred hon yn dechrau ar y dyddiad hwn a bydd rhwymedigaeth yr Asiantaeth i ddarparu Cyllid Benthyciadau Ecwiti i Brynwyr Cymwys a rhwymedigaeth y Darparwr i farchnata a gwaredu Anheddau Cymwys i Brynwyr Cymwys er mwyn cael mynediad i Gyllid Benthyciadau Ecwiti yn parhau (yn amodol ar derfyniad cynharach) tan fod y dyddiad pan fydd yr

Asiantaeth yn hysbysu'r Darparwr fod y Cyllid Ecwiti wedi'i ddefnyddio yn llawn a'r Dyddiad Stop Pell, pa un sy'n gynharach.

2.2 Mae rhwymedigaeth yr Asiantaeth i ddarparu Cyllid Benthyciad Ecwiti i Brynwr Cymwys yn unol â thelerau'r Weithred hon:

(a) dim ond yn codi pan fo Prynwr Cymwys yn prynu Annedd Gymwys yn unol ag amodau'r Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru; ac

(b) yn dod i ben ar y dyddiad y mae'r Asiantaeth yn hysbysu'r darparwr fod y Cyllid Ecwiti wedi'i ddefnyddio'n llawn.

2.3 Mae'r Darparwr yn cydnabod o dan y Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru y bydd yr Asiantaeth hefyd, yn amodol ar argaeledd cyllid yn y Gronfa Ecwiti, yn gwneud benthyciadau ar gael i Brynwyr Cymwys anheddau a adeiladwyd neu a gaiff eu hadeiladu gan ddarparwyr eraill, ar yr un telerau ym mhob ffordd berthnasol ag o dan y Weithred hon.

2.4 Bydd yr Asiantaeth yn ymdrin â cheisiadau ar gyfer pob Benthyciad Ecwiti (pa un ai bod yn ymwneud ag Anheddau Cymwys o dan y Weithred hon neu anheddau a godwyd neu a gaiff eu codi gan ddarparwyr eraill) ar sail "cyntaf i'r felin" tan yr adeg y caiff y Gronfa Ecwiti ei defnyddio'n llawn ac, er mwyn osgoi amheuaeth, nid oes rhwymedigaeth i'r Asiantaeth gadw neu ddyrannu unrhyw swm penodol o gyllid o dan y Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru i'r Darparwr neu unrhyw ddarparwr arall.

2.5 Bydd yr Asiantaeth yn hysbysu'r Darparwr drwy gyhoeddi ystadegau o ran y symiau cyfanredol a roddwyd a'r symiau sydd ar ôl ac ar gael yn y Gronfa Ecwiti o dro i dro, gan gydnabod y gellid gwneud arian ychwanegol ar gael i'r Asiantaeth mewn perthynas â'r Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru er mwyn cynyddu'r Gronfa Ecwiti.

### 3 **Cyllid Benthyciad Ecwiti – Amodau y Cytunwyd Arnynt**

3.1 Yn amodol ar argaeledd cyllid yn y Gronfa Ecwiti a darpariaethau Cymal 2, mae'r Asiantaeth wedi cytuno i wneud Cyllid Benthyciadau Ecwiti ar gael i Brynwyr Cymwys ar sail uned-i-uned drwy gyfrannu at brynu Annedd Gymwys a thalu Cyllid Benthyciad Ecwiti o'r fath i drawsgludwr y Prynwr Cymwys yn amodol ar ac yn unol â thelerau ac amodau'r Weithred hon.

3.2 Ni fydd y Darparwr yn cwblhau gwerthiant unrhyw Annedd o dan y Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru tan fod yr holl Rag-amodau wedi'u bodloni o ran yr Annedd honno.

3.3 Mae'r Darparwr yn cydnabod ac yn cytuno bod y Cyllid Benthyciad Ecwiti yn cael ei roi ar gael gan yr Asiantaeth at yr unig ddiben o gynorthwyo Prynwyr Cymwys i brynu Anheddau Cymwys ar delerau benthyciad ecwiti yn unol â'r Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru. Mae'r partïon wedi ymrwymo i'r Weithred hon:

3.3.1 er mwyn galluogi i'r partïon gytuno ar ragolygon a'u monitro ar gyfer argaeledd Anheddau Cymwys y Darparwr i'w prynu o dan y Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru; ac



3.3.2 i gynorthwyo'r Asiantaeth gyda monitro a rhagamcanu gwariant.

3.4 Mae'r partïon drwy hyn yn cytuno bod Manylion y Rhagolwg ar gyfer pob Blwyddyn yn cynrychioli amcangyfrif y Darparwr o'r galw posib ar gyfer y Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru gan brynwyr posib mewn perthynas â'i Anheddau Cymwys ac mae'r Darparwr yn cadarnhau drwy baratoi Manylion y Rhagolwg ei fod, ac y bydd, bob amser yn gweithredu yn unol ag Arfer Da'r Diwydiant.

3.5 Bydd y Darparwr yn gwneud ymdrechion rhesymol i hyrwyddo a marchnata'r Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru er mwyn cyrraedd y Nifer a Ragwelwyd o werthiannau erbyn 31 Mawrth ymhob Blwyddyn.

## 4 Taliad

### 4.1 Cyfrifo Cyfraniadau

Bydd yr Asiantaeth yn cyfrannu drwy fenthyciad i Brynwr Cymwys dim llai na 10% (deg y cant) ond dim mwy nag 20% (ugain y cant) o Werth Marchnadol yr Annedd Gymwys gan ddibynnu ar ganlyniad yr asesiad cymhwysedd a chyllid y Prynwr Cymwys gan yr Asiantaeth.

### 4.2 Priso a Chynnydd

4.2.1 Bydd y Darparwr yn gwaredu yr holl Anheddau Cymwys am ddim mwy na'r Gwerth Marchnadol. Wrth benderfynu ar amcangyfrifiad o'r Gwerth Marchnadol at ddibenion marchnata'r Anheddau Cymwys, bydd y Darparwr yn gweithredu yn ddiwyll ac ni fydd yn gwahaniaethu rhwng anheddau a waredir i Brynwyr Cymwys ac anheddau a gaiff eu gwaredu i brynwyr eraill.

4.2.2 Yn achos gwaredu unrhyw Annedd Gymwys i Brynwr Cymwys, bydd y Darparwr yn sicrhau:

- (a) bod y Pris Prynu yn ddim mwy na'r Gwerth Marchnadol ar gyfer yr Annedd Gymwys honno;
- (b) na ddarperir na chaniateir unrhyw Gymelliadau ar wahân i Gymelliadau a Ganiateir; ac
- (c) nad yw'n ofynnol (oni bai ei fod yn ofynnol gan y Rhoddwr Benthyciadau Cymwys perthnasol) i'r Prynwr Cymwys dalu blaendal wrth gyfnewid contractau sy'n fwy na 4% (pedwar y cant) o'r Pris Prynu a/neu ffi gadw sy'n fwy na £500

### 4.3 Parhau'r rhwymedigaeth i wneud Cyfraniadau

Er gwaethaf unrhyw Ddiffyg daliad y Darparwr, mae'r partïon yn cydnabod ac yn cytuno y bydd rhwymedigaeth yr Asiantaeth i dalu Cyfraniad yr Asiantaeth i drawsgludwr y Prynwr Cymwys yn parhau ar gyfer unrhyw Brynwr Cymwys y gwnaeth yr Asiantaeth gyhoeddi Awdurdod i Fwrw Ati ar ei gyfer, ar yr amod bod gwerthiant yr Annedd Gymwys i Brynwr Cymwys o'r fath yn cael ei gwblhau cyn y Dyddiad Stop Pell ac, fel arall, yn unol ag amodau'r Weithred hon.

### 4.4 Dim rhwymedigaeth i dalu'r Cyllid Benthyciad Ecwiti

Yn ddarostyngedig i Amod 4.3, ni fydd gan yr Asiantaeth unrhyw rwymedigaeth i wneud unrhyw daliad Cyllid Benthyciad Ecwiti a bydd ganddi'r hawl i derfynu'r Weithred hon yn llawn neu'n rhannol neu weithredu unrhyw rwymedi arall sydd ar gael yn unol ag Amod 12 pe bai Diffyg daliad y Darparwr yn digwydd.

#### 4.5 **Rhyddhau'r Prynwr**

Mae'r Darparwr yn cytuno drwy hyn pe bai'n ymrwymo i unrhyw gontract gyda Phrynwr Cymwys ar gyfer prynu Annedd gan ddefnyddio'r Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru heb fudd Awdurdod i Fwrw Ati dilys, neu pe bai Diffyg daliad gan y Darparwr, yna bydd y Darparwr yn rhyddhau'r Prynwr Cymwys yn ddiamod o gontract o'r fath ac yn dychwelyd unrhyw flaendal a/neu ffi gadw iddo a dalwyd gan y Prynwr Cymwys hwnnw.

### 5 **Gwarantiadau a Chyfamodau**

5.1 Mae'r Darparwr yn gwarantu'r Asiantaeth o ran telerau'r Gwarantiadau.

5.2 Bydd pob Gwarantiad ar wahân ac yn annibynnol ac, oddieithr fel y darparwyd i'r gwrthwyneb yn benodol, ni chaiff ei chyfyngu gan gyfeiriad at unrhyw rai ohonynt na chan unrhyw ddarpariaethau eraill y Weithred hon.

5.3 Mae'r holl warantiadau (gan gynnwys y Gwarantiadau), sylwadau, ymrwymadau, indemniadau a rhwymedigaethau eraill a wnaed, a roddwyd neu a ymrwymwyd iddynt gan y Darparwr yn y Weithred hon yn gronnus ac ni chaiff un ohonynt ei ddehongli'n gyfyngedig drwy gyfeirio at unrhyw un arall.

5.4 Bydd y Darparwr yn digolledu ac yn cadw'r Asiantaeth wedi'i digolledu rhag ac yn erbyn unrhyw rwymedigaethau a Cholledion a achoswyd i'r Asiantaeth o ganlyniad i dorri unrhyw rai o'r Gwarantiadau.

5.5 Bydd yr Asiantaeth yn cymryd yr holl gamau rhesymol i liniaru unrhyw Golledion a achoswyd ganddi o ganlyniad i dorri unrhyw rai o'r Gwarantiadau.

### 6 **Rhwymedigaethau'r Darparwr**

#### 6.1 **Marchnata**

6.1.1 Cyn ymgymryd ag unrhyw farchnata o ran y Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru, bydd y Darparwr yn cael neu'n sicrhau y ceir unrhyw Gofrestriad Defnyddiwr perthnasol ac yn sicrhau ei fod mewn sefyllfa i gydymffurfio â'r Gofynion Hysbysebu o ran y Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru;

6.1.2 Bydd y Darparwr yn sicrhau bod:

- (a) unrhyw brynwyr posib Anheddau Cymwys (a gyflwynwyd iddo neu sy'n cyflwyno eu hunain) yn cael y Canllaw i Brynwyr wedi'i ddarparu iddynt;
- (b) ni chaiff unrhyw sylwadau ynglŷn â Chymorth i Brynu – Cymru neu ei addasrwydd ar gyfer Prynwyr Cymwys eu gwneud neu gael eu caniatáu gan neu ar ei ran ar wahân i'r hyn a amlinellwyd

yn y Canllaw i Brynwyr; ac

- (c) o dan unrhyw amgylchiadau, ni fydd y Darparwr yn cymeradwyo neu'n penderfynu ar gymhwysedd unrhyw brynwr posib i Gymorth i Brynu – Cymru na chyfyngu ar allu unrhyw Brynwr Cymwys i ymgynghori â chynghorydd ariannol a/neu gyfreithiol annibynnol.
- 6.1.3 Bydd y Darparwr yn sicrhau bod unrhyw hysbyseb a gyhoeddir ganddo neu ar ei ran sy'n cyfeirio at Gymorth i Brynu – Cymru neu'r cymorth sydd ar gael gan yr Asiantaeth yn cydymffurfio â'r Gofynion Hysbysebu;
- 6.1.4 Bydd y Darparwr yn sicrhau ei gyngor cyfreithiol ei hun o ran cydymffurfio â'r Gofynion Hysbysebu;
- 6.1.5 Bydd y Darparwr yn sicrhau bod gan yr Asiantaeth wybodaeth gyfredol o ran marchnata Anheddau Cymwys ac argaeledd presennol a bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei darparu yn y fath fodd sy'n ei galluogi i gael ei lanlwytho yn uniongyrchol i unrhyw wefan a gynhelir gan yr Asiantaeth;
- 6.1.6 Wrth farchnata a gwerthu'r Anheddau Cymwys i Brynwyr Cymwys:
- (a) mae'r Darparwr yn cydnabod y bydd yn gyfrifol am farchnata safleoedd penodol yr Anheddau ac, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd yr Asiantaeth yn gyfrifol am farchnata'r Anheddau ar ran y Darparwr; a
  - (b) bydd y Darparwr yn gwneud yr holl ymdrechion rhesymol i gydweithredu â'r Asiantaeth mewn perthynas â gwaredu'r Anheddau Cymwys i Brynwyr Cymwys;
- 6.1.7 Pan fo Prynwr Cymwys yn dymuno cadw unrhyw Annedd am fwy na naw (9) mis cyn dyddiad cwblhau'r gwerthiant a ragwelwyd (neu pan nad yw hwn yn hysbys, y dyddiad Cwblhau Ymarferol a ragwelir), bydd cadw o'r fath ond yn cael ei ganiatáu ar y sail y bydd y Darparwr yn sicrhau:
- (a) na fydd y Ffurflen Gwybodaeth am Eiddo a'r ffurflen cadw mewn perthynas ag unrhyw Annedd o'r fath yn cael eu cwblhau na'u cyflwyno gan y Prynwr Cymwys fwy na deg (10) mis cyn y dyddiad cwblhau cyfreithiol a ragwelir ar gyfer y gwerthiant (neu pan nad yw hyn yn hysbys, y dyddiad Cwblhau Ymarferol a ragwelir); ac
  - (b) ni fydd y Darparwr yn cyfnewid contractau gyda'r Prynwr Cymwys cyn bod Awdurdod i Fwrw Ati dilys ar gael. Yn ogystal, heb leihau effaith Amodau 7.7 a 7.8, ni fydd y Darparwr yn cyfnewid contractau gyda'r Prynwr Cymwys gyda dyddiad cwblhau cyfreithiol sy'n fwy na chwe (6) mis o'r dyddiad cyfnewid contractau, neu y tu hwnt i gyfnod dilysrwydd y cynnig morgais gan y Rhoddwr Benthyciadau Cymwys, pa bynnag un sy'n ddiweddarach.

Bydd y Darparwr yn sicrhau drwy ddefnyddio ei hawliau a chyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon a thrwy ddethol a phenodi unrhyw is-gontractwr y bydd bob amser yn cydymffurfio â'r:

6.2.1 holl Ddeddfwriaeth a Rheoliadau perthnasol; ac

6.2.2 Arferion Da'r Diwydiant;

## 7 **Gweithdrefn Cymorth i Brynu – Cymru**

7.1 Bydd y Darparwr yn sicrhau bod yr holl brynwyr posib ar gyfer Anheddau Cymwys (a gyflwynwyd iddo neu sy'n cyflwyno eu hunain i'r Darparwr) yn cael eu hysbysu ynghylch argaeledd Cymorth i Brynu – Cymru o ran Anheddau Cymwys o'r fath.

7.2 Bydd y Darparwr yn gweithio gyda'r prynwr posib er mwyn cwblhau'r Ffurflen Gwybodaeth am Eiddo yn llawn. Bydd y Darparwr yn sicrhau bod y prynwr posib yn cael ei hysbysu am gynnwys y datganiad a gynhwysir yn y Ffurflen Gwybodaeth am Eiddo cyn llofnodi'r ffurflen, yn arbennig mewn perthynas â'r rhwymedigaeth i sicrhau bod yr holl wybodaeth a ddarperir ar y Ffurflen Gwybodaeth am Eiddo yn gywir ac yn wir.

7.3 Bydd hawl gan y Darparwr i'w wneud yn ofynnol i brynwr posib gadw Anedd Gymwys ar adeg cwblhau'r Ffurflen Gwybodaeth am Eiddo ar yr amod y caiff ei gydnabod bod:

7.3.1 gan y Darparwr a'r prynwr posib yr hawl i dynnu Anedd Gymwys sydd wedi'i chadw i Brynwr Cymwys cyn cyfnewid contractau ar yr un telerau ag y byddent yn berthnasol i unrhyw brynwr arall; ac

7.3.2 (os nad yw'r Awdurdod i Fwrw Ati yn cael ei gyhoeddi o fewn pump (5) Diwrnod Gwaith o dderbyn y Ffurflen Gwybodaeth am Eiddo wedi'i chwblhau'n llawn gan yr Asiantaeth neu mae'r Asiantaeth yn cadarnhau na fydd yr Awdurdod i Fwrw Ati yn awdurdodi'r Prynwr Cymwys i fwrw ati gyda'r prynu) naill ai bydd y Darparwr neu'r prynwr posib â'r hawl i dynnu Anedd Gymwys o'r fath sydd wedi'i chadw ac mae'r Darparwr yn cytuno i ddychwelyd unrhyw ffi gadw (na fydd yn fwy na £500) i'r prynwr posib.

7.4 Bydd yr Asiantaeth yn gweithredu'n gyflym wrth ystyried unrhyw Ffurflen Gwybodaeth am Eiddo a gwblhawyd yn briodol gan brynwr posib yn ymwneud ag Anedd Gymwys a bydd yn darparu cadarnhad ysgrifenedig i'r Darparwr a'r prynwr posib pa un ai bod y prynwr posib yn gymwys i fwrw ati i brynu'r Anedd Gymwys a enwebwyd ac, os felly, bydd yn cyflwyno i'r Darparwr a thrawsgludwr y prynwr posib yr Awdurdod i Fwrw Ati o fewn pump (5) Diwrnod Gwaith o dderbyn y Ffurflen Gwybodaeth am Eiddo yn cynnwys manylion gofynnol yr eiddo yn nodi neu'n cadarnhau:

7.4.1 pa un ai a yw'r prynwr posib yn cymhwyso fel Prynwr Cymwys;

7.4.2 y Pris Prynu;

7.4.3 Cyfraniad yr Asiantaeth a Chanran y Cyfraniad; ac

- 7.4.4 unrhyw symiau arian parod ychwanegol mae'r Prynwr Cymwys yn eu cynnig neu a fydd yn ofynnol gan yr Asiantaeth neu'r Rhoddwr Benthyciadau Cymwys i'w defnyddio wrth brynu.
- 7.5 Bydd yr Asiantaeth ar yr un pryd â chyflwyno Awdurdod i Fwrw Ati yn cyflwyno i drawsgludwr y Prynwr Cymwys pecyn trawsgludo ar y ffurf y bydd yr Asiantaeth yn ei gwneud yn ofynnol o dro i dro.
- 7.6 Bydd yr Asiantaeth yn awdurdodi trawsgludwr y Prynwr Cymwys i gyfnewid contractau o fewn pump (5) Diwrnod Gwaith o dderbyn Ffurflen Trawsgludo 1 wedi'i chwblhau a'i llofnodi'n briodol.
- 7.7 Bydd cyfnewid contractau ar gyfer gwerthu'r Eiddo Cymwys perthnasol i'r Prynwr Cymwys yn digwydd o fewn dim mwy na thri (3) mis ar ôl dyddiad yr Awdurdod i Fwrw Ati (ar wahân i pan fod yr Asiantaeth yn cadarnhau bod yr Awdurdod i Fwrw Ati yn cael ei ymestyn am gyfnod hirach ac, os felly, bydd y cyfnod estynedig yn berthnasol). Bydd y contract gwerthu:
- 7.7.1 ar y telerau sy'n unol â'r Awdurdod i Fwrw Ati; a
- 7.7.2 bydd angen cwblhau gwerthiant yr Annedd Gymwys o fewn chwe (6) mis i'r dyddiad cyfnewid contractau neu o fewn cyfnod dilysrwydd y cynnig morgais gan y Rhoddwr Benthyciadau Cymwys, pa bynnag un sydd ddiweddaraf, ar yr amod nad yw cwblhau'r gwerthiant yn gallu digwydd yn hwyrach na'r Dyddiad Stop Pell.
- 7.8 Os nad yw'r cyfnewid yn digwydd o fewn tri (3) mis i'r Awdurdod i Fwrw Ati (neu unrhyw gyfnod estynedig a gadarnhawyd fel y manylir arno yn Amod 7.7), bydd yr Awdurdod i Fwrw Ati yn dod i ben a bydd y Darparwr yn hysbysu'r Asiantaeth.
- 7.9 Bydd yr Asiantaeth yn trosglwyddo'r Cyllid Benthyciad Ecwiti i drawsgludwr y Prynwr Cymwys dim hwyrach na'r dyddiad cwblhau a hysbyswyd i'r Asiantaeth gan drawsgludwr y Prynwr Cymwys.
- 7.10 Mae'r Darparwr yn cydnabod cyn cyfnewid contractau i werthu Annedd Gymwys i Brynwr Cymwys y gallai'r Asiantaeth drwy hysbysiad ysgrifenedig dynnu'r Awdurdod i Fwrw Ati yn ôl neu gyflwyno Awdurdod i Fwrw Ati diwygiedig ac, os felly, bydd grym yr Awdurdod i Fwrw Ati gwreiddiol ar gyfer yr Annedd Gymwys yn dod i ben.
- 7.11 Mae'r Darparwr yn cydnabod y bydd yr Asiantaeth yn ei gwneud yn ofynnol i drawsgludwr y Prynwr Cymwys ddarparu tystiolaeth i'r Asiantaeth o brisiad morgais y Prynwr Cymwys a chynnig morgais gan Roddwr Benthyciadau Cymeradwy a chydymffurfio â thelerau eraill yn ymwneud â phenodi trawsgludwr y Prynwr Cymwys cyn i drawsgludwr y Prynwr Cymwys gael ei awdurdodi i gyfnewid contractau ar gyfer caffael Annedd Gymwys.
- 7.12 Bydd y Darparwr yn hysbysu'r Asiantaeth ar unwaith pan ddaw'n ymwybodol nad yw gwerthiant Annedd Gymwys i Brynwr Cymwys bellach yn parhau a bydd yn darparu manylion unrhyw ffi gadw a gedwir.

## 8 Newidiadau i Fanylion y Rhagolwg

- 8.1 Gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Darparwr yn unol ag Amod 13

ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol a ddarparwyd i'r Asiantaeth (naill ai gan y Darparwr, neu fel arall), bydd yr Asiantaeth yn adolygu ac (os yw'n ofynnol) yn diweddarau Manylion y Rhagolwg o dro i dro er mwyn galluogi i'r Asiantaeth fonitro'r galw am Gyllid Benthyciad Ecwiti a rhagweld pan fydd y Cyllid Ecwiti yn cael ei ddefnyddio yn llawn.

## 8.2 **Defnyddio Manylion y Rhagolwg**

Mae'r partïon yn cydnabod bod Manylion y Rhagolwg wedi'u bwriadu i alluogi'r Asiantaeth i fonitro a rheoli'r galw am Gyllid Benthyciad Ecwiti, ond nid ydynt yn gorfodi'r Asiantaeth i roi cyllid ar gael i'r lefelau a ragamcanwyd ym Manylion y Rhagolwg a bydd ceisiadau am bob Benthyciad Ecwiti (pa un ai bod yn ymwneud ag Anheddau Cymwys o dan y Weithred hon neu anheddau a adeiladwyd neu a gaiff eu hadeiladu gan ddarparwyr eraill) yn cael eu trin ar sail "cyntaf i'r felin" tan yr adeg y mae'r Cyllid Ecwiti wedi'i ddefnyddio yn llawn, fel y nodir yn Amod 2.4.

## 9 **Cymorth Gwladwriaethol**

9.1 Yn unol â Phenderfyniad Comisiwn y Cymunedau Ewropeaidd a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2011 mewn perthynas ag iawndal y sector cyhoeddus a roddir i rai ymgymeriadau a roddir y gwaith o weithredu gwasanaethau o fudd economaidd cyffredinol yn eu gofal, os yw'n ofynnol i'r Asiantaeth adfer unrhyw swm o or-iawndal (fel y disgrifiwyd yn y Penderfyniad), bydd gan yr Asiantaeth yr hawl i adfer swm o'r fath gan y Darparwr.

## 10 **Amrywiadau**

Ac eithrio i'r graddau a nodwyd yn benodol i'r gwrthwyneb, bydd unrhyw ychwanegiad, amrywiad neu ddiwygiad i'r Weithred hon ond yn orfodol os yw'n cael ei wneud yn ysgrifenedig ac yn cael ei lofnodi gan gynrychiolydd priodol a awdurdodwyd o bob parti.

## 11 **Diffyg daliad y Darparwr**

11.1 Ar adeg unrhyw Ddiffyg daliad gan y Darparwr neu wedi hynny, bydd gan yr Asiantaeth yr hawl drwy hysbysiad ysgrifenedig, a ddaw i rym ar unwaith, i weithredu unrhyw rai o'r hawliau a rhwymediau canlynol:

11.1.1 terfynu'r Weithred hon yn llawn a

11.1.2 gwahardd unrhyw daliadau Cyllid Benthyciad Ecwiti pellach ar gyfer Anheddau Cymwys (ac eithrio i'r graddau sy'n berthnasol yn Amod 4.3)

11.2 Mewn perthynas â gweithredu gan yr Asiantaeth ei hawliau yn Amod 11, bydd y Darparwr yn talu, yn ôl y galw, unrhyw golledion a wnaed gan yr Asiantaeth a achoswyd o ganlyniad i Ddiffyg daliad y Darparwr (pa un a yw'r Weithred hon yn cael ei therfynu neu beidio), gan gynnwys unrhyw gostau a achoswyd i'r Asiantaeth wrth archwilio unrhyw Ddiffyg daliad gan y Darparwr a ddigwyddodd.

## 12 **Monitro, adolygiadau ac adrodd**

12.1 Bydd y Darparwr o ddyddiad y Weithred hon yn cyflwyno Diweddariad Chwarterol ac Adroddiad Rhagolwg i'r Asiantaeth dim hwyrach na deg (10) Diwrnod Gwaith yn

dilyn diwedd pob chwarter: 31 Mawrth, 30 Mehefin, 30 Medi a 31 Rhagfyr yn ystod cyfnod y Weithred hon.

- 12.2 Bydd y Diweddariad Chwarterol a'r Adroddiad Rhagolwg yn darparu gwybodaeth sy'n rhesymol ofynnol gan yr Asiantaeth, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, y wybodaeth ganlynol, yn unol â'r hyn sy'n briodol ar gyfer y mis hwnnw:
- 12.2.1 cynnydd yn erbyn y Rhagolygon Gwerthiant a Marchnata, gan gynnwys unrhyw ddyddiadau cwblhau a ddiwygiwyd a gohiriadau a ragwelwyd wrth wireddu rhagolygon o'r fath;
  - 12.2.2 y rhesymau dros, a champau gweithredu i liniaru, unrhyw danberfformiad;
  - 12.2.3 unrhyw dorri ar rwymedigaeth neu warantiad o dan y Weithred hon neu newid mewn gwybodaeth a warantwyd;
  - 12.2.4 unrhyw gydweithredu neu gymorth sy'n ofynnol oddi wrth yr Asiantaeth;
  - 12.2.5 pan fo'r Niferoedd a Ragwelwyd ym marn resymol y Darparwr yn annhebygol o'u gwerthu, cadarnhad o'r rhesymau dros fethiant o'r fath ynghyd â chynigion i gynyddu tebygolrwydd eu gwireddu;
  - 12.2.6 unrhyw Ddigwyddiad Arwyddocaol;
  - 12.2.7 unrhyw fater neu ddigwyddiad a allai ganiatáu i'r Asiantaeth derfynu'r Weithred hon yn gyfan neu'n rhannol; ac
  - 12.2.8 unrhyw fater arall y gwnaed cais amdano ar hysbysiad rhesymol gan yr Asiantaeth (gan gynnwys, heb gyfyngiad, mewn cyfarfod blaenorol).
- 12.3 Gall yr Asiantaeth drefnu cyfarfod gyda'r Darparwr (i drafod cynnwys y Diweddariad Chwarterol a'r Adroddiad Rhagolwg, unrhyw fater arall yn ymwneud â'r Weithred hon, neu drefniadau rhwng y partïon) ar unrhyw adeg ar yr amod bod yr Asiantaeth:
- 12.3.1 yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig rhesymol cyn cyfarfod o'r fath; ac
  - 12.3.2 yn cynnwys gyda'r hysbysiad (neu'n ei gylchredeg o fewn deg (10) Diwrnod Gwaith o'r hysbysiad) agenda ar gyfer cyfarfod o'r fath.
- 12.4 Bydd yr Asiantaeth a'r Darparwr yn gwneud yr holl ymdrechion rhesymol i sicrhau bod gan unrhyw gynrychiolwyr mewn unrhyw gyfarfod a gynhelir yn unol ag Amod 12 yr awdurdod a'r wybodaeth angenrheidiol i ymdrin â'r eitemau ar yr agenda ar gyfer cyfarfod o'r fath.
- 12.5 Yn amodol ar gymeradwyaeth flaenorol y parti arall (ni ddylid atal cymeradwyaeth o'r fath yn afresymol), gall y naill barti neu'r llall wneud cais am unigolion ychwanegol i fynychu cyfarfod er mwyn darparu cyngor neu wybodaeth fanwl neu benodol.
- 13 **Cofnodion a chyfrifon y Darparwr**
- 13.1 Bydd y Darparwr, pan ofynnir iddo gan yr Asiantaeth, yn sicrhau, ar sail Llyfr Agored ac mewn ffordd amserol, fod copi yr un o'r canlynol ar gael i'r Asiantaeth mewn

cysylltiad â'r Weithred hon neu'r Anheddau Cymwys:

13.1.1 holl ddata, deunyddiau, dogfennau a chyfrifon o unrhyw fath a grëwyd, a gadwyd neu a luniwyd mewn unrhyw ffordd bynnag gan neu ar ran y Darparwr at ddibenion y Weithred hon; a'r

13.1.2 holl ddata, deunyddiau, dogfennau a chyfrifon o'r fath a grëwyd, a gadwyd neu a luniwyd gan swyddogion, cyflogeion, asiantiaid neu ymgynghorwyr y Darparwr yn ymwneud â'r Anheddau Cymwys ac a gyflenwyd i'r Darparwr at ddibenion y Weithred hon.

13.2 Bydd y Darparwr bob amser yn:

13.2.1 cynnal cofnod llawn o'r holl fanylion gwerthu (gan gynnwys prisiadau) a derbynebaw a dderbyniwyd yn ymwneud â'r holl Anheddau Cymwys a werthwyd o dan Gymorth i Brynu – Cymru;

13.2.2 pan fo'n ofynnol gan yr Asiantaeth, darparu crynodeb o unrhyw wybodaeth y cyfeirir ati yn Amod 13.2.1 fel y bo'n ofynnol gan yr Asiantaeth i'w galluogi i fonitro perfformiad y Darparwr o'i rwymedigaethau o dan y Weithred hon; a

13.2.3 darparu unrhyw gyfleusterau sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth er mwyn i'w chynrychiolwyr ymweld ag unrhyw leoliad ble y cedwir y cofnodion ac archwilio'r cofnodion a gynhelir o dan yr Amod hwn.

13.3 Bydd cydymffurfio â'r uchod yn ei wneud yn ofynnol i'r Darparwr gadw (a ble y bo'n briodol sicrhau bod unrhyw is-gontractwr yn cadw) llyfrau cyfrifon ar wahân (ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud ag unrhyw fusnes, gweithgaredd neu weithrediad a gynhelir gan y Darparwr a/neu is-gontractwr nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw Anedd Gymwys) yn unol ag arferion cyfrifon da sy'n ymwneud â'r holl Anheddau Cymwys ac sy'n dangos yn fanwl:

13.3.1 incwm (gan gynnwys derbynebaw gwerthu);

13.3.2 prisiadau ac

13.3.3 unrhyw eitem arall o'r fath a allai fod yn ofynnol gan yr Asiantaeth er mwyn cynnal (ei hun neu drwy drydydd parti) archwiliadau costau er mwyn gwirio incwm, costau gwariant neu wariant a amcangyfrifwyd, at ddiben unrhyw rai o ddarpariaethau'r Weithred hon;

a bydd gan y Darparwr (a bydd y Darparwr yn sicrhau hynny i'r graddau y cytunwyd yn benodol a fydd gan yr is-gontractwyr) lyfrau cyfrifon sy'n dangos yr eitemau a restrwyd yn yr amod hwn ar gael i'w harchwilio gan yr Asiantaeth (ac unrhyw unigolyn a benodwyd yn unol â'r Weithdrefn Datrys Anghydfod er mwyn penderfynu ar anghydfod neu a awdurdodwyd fel arall gan yr Asiantaeth) yn ôl hysbysiad rhesymol, a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Asiantaeth yn ôl y gofyn.

13.4 Pan fydd y Weithred hon yn dod i ben neu (os yn gynharach) pan fydd yn cael ei therfynu, bydd y Darparwr, os gofynnir iddo wneud hynny, yn cyflenwi i'r Asiantaeth yr holl ddata, deunyddiau, dogfennau a chyfrifon y cyfeirir atynt yn yr Amod 13 hwn sydd ganddo yn ei berchenogaeth neu o dan ei ofal neu reolaeth a bydd yn sicrhau



bod data, deunyddiau, dogfennau a chyfrifon o'r fath y cyfeirir atynt yn Amod 13.1.2 yn cael eu trosglwyddo i'r Asiantaeth neu fel y cyfarwyddir yn wahanol gan yr Asiantaeth.

13.5 Mae'n rhaid i'r Darparwr am gyfnod o 10 (deg) mlynedd o'r Dyddiad Stop Pell gadw'r holl ddata, dogfennau, deunyddiau a chyfrifon y cyfeirir atynt o dan yr Amod 13 hwn a gall y Darparwr gadw'r fath ddata, dogfennau, deunyddiau a chyfrifon ar ffurf electronig yn unig a allai, er mwyn osgoi amheuaeth, gynnwys copïau pan fo'r dogfennau gwreiddiol wedi'u darparu i'r Asiantaeth yn unol ag Amod 13.4.

## 14 **Gwybodaeth a chyfrinachedd**

### 14.1 **Cyfrinachedd**

14.1.1 Mae pob parti yn cydnabod o dan y Weithred hon y gallai dderbyn Gwybodaeth Gyfrinachol yn ymwneud â'r llall.

14.1.2 Mae pob parti yn cytuno y bydd yn trin a gwneud yr holl ymdrechion rhesymol i sicrhau y bydd unrhyw Gwmni Grŵp perthnasol yn trin yr holl Wybodaeth Gyfrinachol sy'n eiddo i'r llall yn gyfrinachol a pheidio â rhyddhau Gwybodaeth Gyfrinachol o'r fath neu unrhyw wybodaeth gyfrinachol arall yn ymwneud â'r Asiantaeth sy'n codi neu'n dod i'w sylw yn ystod cyfnod y Weithred hon i unrhyw drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol y parti arall ac yn cytuno i beidio â defnyddio Gwybodaeth Gyfrinachol o'r fath at unrhyw ddiben ar wahân i'r hyn y'i darparwyd ar ei gyfer o dan y Weithred hon.

14.1.3 Ni fydd y rhwymedigaethau cyfrinachedd y cyfeirir atynt yn Amod 14.1.2 yn berthnasol i unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol:

- (a) sydd yn y parth cyhoeddus, neu a ddaw iddo, heblaw drwy dorri'r Weithred hon neu unrhyw ddyletswydd cyfrinachedd arall sy'n ymwneud â'r wybodaeth honno; neu
- (b) a gesglir gan drydydd parti heb fod y trydydd parti hwnnw o dan rwymedigaeth (penodol neu a awgrymwyd) i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol; neu
- (c) sydd ym mherchenogaeth gyfreithiol y parti arall cyn dyddiad y Weithred hon ac nad yw'r parti hwnnw o dan unrhyw rwymedigaeth cyfrinachedd flaenorol mewn perthynas â hi; neu
- (d) sydd wedi'i datblygu'n annibynnol heb fynediad i Wybodaeth Gyfrinachol y parti arall.

14.1.4 Caniateir i bob parti ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol i'r graddau y mae'n ofynnol iddo wneud hynny:

- (a) er mwyn galluogi i'r parti sy'n datgelu gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon neu unrhyw Fenthyciad Ecwiti; neu
- (b) drwy unrhyw ddeddf berthnasol neu drwy lys neu dribiwnlys cyflafareddol neu weinyddol yn ystod yr achos o'i flaen, gan gynnwys

heb gyfyngiad unrhyw ofyniad ar gyfer ei datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu'r Cod Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth y Llywodraeth, ac mae'r Darparwr yn cydnabod bod unrhyw restrau neu atodlenni a ddarperir ganddo yn amlinellu'r Wybodaeth Gyfrinachol o werth dangosol yn unig ac, er hynny, gallai'r Asiantaeth gael ei gorfodi i ryddhau gwybodaeth gyfrinachol o'r fath; neu

- (c) drwy unrhyw gorff rheoleiddio (gan gynnwys unrhyw gyfnewid buddsoddiad) yn gweithredu yn ystod achos o'i flaen neu'n gweithredu wrth gyflawni ei ddyletswyddau; neu
- (d) er mwyn rhoi cyfarwyddiadau priodol i unrhyw gynghorydd proffesiynol i'r parti hwnnw sydd hefyd o dan rwymedigaeth i gadw Gwybodaeth Gyfrinachol o'r fath yn gyfrinachol; neu
- (e) i ddiwallu ceisiadau rhesymol am wybodaeth oddi wrth Roddwyr Benthyciadau Cymeradwy (neu ymgynghorwyr proffesiynol neu gynghorwyr yswiriant y Rhoddwyr Benthyciadau Cymeradwy) i'r graddau bod datgeliad o'r fath yn angenrheidiol er mwyn cyflenwi'r Weithred hon.

14.1.5 Bydd y Darparwr yn sicrhau bod yr holl Wybodaeth Gyfrinachol a gafwyd gan yr Asiantaeth drwy'r Weithred hon neu mewn cysylltiad â hi:-

- (a) ond yn cael ei rhoi i'w Gwmnïau Grŵp, cyflogeion, cynghorwyr proffesiynol neu ymgynghorwyr sydd wedi eu cyflogi i gynghori mewn cysylltiad â'r Weithred hon fel y bo'n hollol angenrheidiol ar gyfer cyflenwi'r Weithred hon a dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflenwi'r Weithred hon;
- (b) yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac ni chaiff ei datgelu (heb gymeradwyaeth ysgrifenedig flaenorol yr Asiantaeth) neu ei defnyddio gan unrhyw staff neu gynghorwyr neu ymgynghorwyr proffesiynol o'r fath ac eithrio at ddibenion y Weithred hon a
- (c) ble y caiff ei ystyried yn angenrheidiol ym marn yr Asiantaeth, bydd y Darparwr yn sicrhau bod staff, cynghorwyr neu ymgynghorwyr proffesiynol o'r fath yn llofnodi cymal cyfrinachedd cyn dechrau ar y gwaith mewn cysylltiad â'r Weithred hon.

14.1.6 Ni fydd unrhyw beth yn yr Amod 14 hwn yn atal yr Asiantaeth:-

- (a) rhag rhyddhau unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol at ddiben:-
  - i archwilio ac ardystio cyfrifon yr Asiantaeth; neu
  - ii unrhyw archwiliad yn unol ag Adran 6(1) Deddf Archwilio Cenedlaethol 1983 o'r economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y mae'r asiantaeth wedi defnyddio ei hadnoddau
- (b) rhag rhyddhau unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a gafwyd oddi wrth

y Darparwr:-

- i unrhyw adran, swyddfa neu asiantaeth arall o Lywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Goron; neu
- ii i unrhyw unigolyn sy'n rhan o gyflenwi unrhyw wasanaethau i'r Asiantaeth at unrhyw ddiben yn ymwneud â neu'n ategol at y Weithred hon neu unrhyw unigolyn sy'n cynnal adolygiad porth Swyddfa Masnach y Llywodraeth neu'r hyn sy'n cyfateb iddo;
- (c) ar yr amod bod yr Asiantaeth, wrth ddatgelu gwybodaeth o dan Amod 14.1.6(b)i neu 14.1.6(b)ii, ond yn datgelu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol at y diben dan sylw a'i bod yn ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth honno gael ei thrin yn gyfrinachol a bod ymrwymiad cyfrinachedd yn cael ei roi pan fo hynny'n briodol.

14.1.7 Ni fydd unrhyw beth yn yr Amod 14 hwn yn atal y naill barti na'r llall rhag defnyddio unrhyw dechnegau, syniadau neu wybodaeth a gasglwyd yn ystod cyflawni'r Weithred hon yn ystod ei fusnes arferol, i'r graddau nad yw hyn yn arwain at ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol neu'n torri ar Hawliau Eiddo Deallusol.

## 14.2 Rhyddid Gwybodaeth

14.2.1 Mae'r Darparwr yn cydnabod bod yr Asiantaeth yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cyfreithiol a allai ei wneud yn ofynnol i ryddhau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a/neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ac y gallai'r Asiantaeth fod o dan rwymedigaeth i ddarparu Gwybodaeth yn ddarostyngedig i Gais am Wybodaeth.

14.2.2 Bydd yr Asiantaeth yn gyfrifol am bennu yn ei ddisgresiwn llwyr pa un ai bod:-

- (a) unrhyw Wybodaeth yn Wybodaeth a Eithriwyd neu'n parhau'n Wybodaeth a Eithriwyd; neu
- (b) unrhyw Wybodaeth yn cael ei rhyddhau mewn ymateb i Gais am Wybodaeth;

ac ni fydd y Darparwr yn ymateb yn uniongyrchol i Gais am Wybodaeth o dan unrhyw amgylchiadau lle y bo'n ofynnol i'r Asiantaeth ymateb, ac eithrio er mwyn cadarnhau derbyn y Cais am Wybodaeth a bod y Cais am Wybodaeth wedi'i drosglwyddo i'r Asiantaeth oni bai ei fod wedi'i awdurdodi'n benodol i wneud hynny gan yr Asiantaeth.

14.2.3 Yn ddarostyngedig i Amod 14.2.4 isod, mae'r Darparwr yn cydnabod y gallai'r Asiantaeth fod o dan rwymedigaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol i ryddhau Gwybodaeth:-

- (a) heb ymgynghori â'r Darparwr neu

- (b) yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Darparwr ac ar ôl ystyried (neu heb ystyried, fel y gallai fod) ei safbwyntiau.
- 14.2.4 Heb gyfyngu mewn unrhyw ffordd ar Amodau 14.2.2 a 14.2.3, pe bai'r Asiantaeth yn derbyn Cais am Wybodaeth, bydd yr Asiantaeth, lle y bo'n briodol, yn hysbysu'r Darparwr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- 14.2.5 Bydd y Darparwr yn cynorthwyo ac yn cydweithredu gyda'r Asiantaeth yn unol â gofynion yr Asiantaeth er mwyn galluogi'r Asiantaeth i gydymffurfio â'i ofynion datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol o fewn y cyfnodau a nodwyd ar gyfer cydymffurfiaeth ac, yn benodol, heb gyfyngiad, bydd, yn ôl ei gost ei hun, yn gwneud y canlynol (ac yn sicrhau y bydd asiantiaid, contractwyr ac is-gontractwyr ei Gwmnïau Grŵp yn gwneud y canlynol):
- (a) trosglwyddo unrhyw Gais am Wybodaeth a dderbyniwyd gan y Darparwr neu unrhyw Gwmni Grŵp (fel y bo'n berthnasol) i'r Asiantaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei dderbyn ac, mewn unrhyw achlysur, o fewn dau Ddiwrnod Gwaith o dderbyn y cais am wybodaeth;
  - (b) darparu'r holl gymorth sy'n angenrheidiol o dro i dro gan yr Asiantaeth a chyflenwi data neu wybodaeth o'r fath fel ag y bo'n ofynnol gan yr Asiantaeth;
  - (c) darparu unrhyw ddata neu wybodaeth sydd yn ei feddiant neu bŵer i'r Asiantaeth ar y ffurf sydd yn ofynnol gan yr Asiantaeth o fewn pum Diwrnod Gwaith (neu gyfnod arall y gallai'r Asiantaeth ei nodi) i'r Asiantaeth wneud cais am y Wybodaeth a
  - (d) chaniatáu i'r Asiantaeth archwilio unrhyw gofnodion yn ôl y gofyn o dro i dro
- 14.2.6 Ni fydd unrhyw beth yn y Weithred hon yn atal yr Asiantaeth rhag cydymffurfio ag unrhyw orchymyn, penderfyniad, gorfodaeth neu hysbysiad argymhelliad arfer dilys a roddwyd iddo gan y Comisiynydd Gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a/neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol mewn perthynas ag unrhyw Wybodaeth a Eithriwyd.
- 14.2.7 Bydd y rhwymedigaethau yn yr Amod 14 hwn yn goroesi'r Weithred hon yn dod i ben neu'n terfynu a phob Benthyciad Ecwiti am gyfnod o 2 flynedd, neu, mewn perthynas ag unrhyw eitem benodol o Wybodaeth Gyfrinachol, tan fod adeg gynharach wrth i'r eitem o Wybodaeth Gyfrinachol gyrraedd y parth cyhoeddus oni bai drwy dorri'r Weithred hon neu unrhyw ddyletswydd cyfrinachedd arall sy'n ymwneud â'r wybodaeth honno.

### 14.3 Tryloywder

- 14.3.1 Mae'r partion yn cydnabod, ar wahân i unrhyw wybodaeth sydd wedi'i

heithrio o'r Weithred hon, fod y Darparwr drwy hyn yn caniatáu i'r Asiantaeth gyhoeddi'r Weithred yn gyflawn i'r cyhoedd (ond gydag unrhyw wybodaeth sydd wedi'i heithrio rhag datgeliad yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi'i golygu), gan gynnwys newidiadau i'r Weithred hon y cytunwyd arnynt o dro i dro.

- 14.3.2 Bydd yr Asiantaeth yn gyfrifol am bennu yn ei disgrisiwn llwyr pa un ai bod unrhyw gynnwys y Weithred hon yn cael ei eithrio rhag datgeliad yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth naill ai:
- (a) yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Darparwr ac ar ôl ystyried (neu heb ystyried, fel y gallai fod) ei safbwyntiau; neu
  - (b) heb ymgynghori â'r Darparwr.
- 14.3.3 Bydd y Darparwr yn cynorthwyo ac yn cydweithredu â'r Asiantaeth er mwyn galluogi i'r Asiantaeth gyhoeddi'r Weithred hon.

#### 14.4 **Cyhoeddi gwybodaeth**

Mae'r partïon yn cydnabod y bydd gan Swyddfa Archwilio Cymru a/neu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yr hawl i gyhoeddi manylion y Weithred hon yn ei hadroddiadau perthnasol i'r Senedd a/neu Lywodraeth Cymru fel y bo'n briodol.

#### 15 **Llyfr Agored**

Bydd y Darparwr yn gyfrifol am brofi cywirdeb unrhyw ffeithiau neu ffigurau y cyfeirir atynt yn y Weithred hon a bydd y Darparwr yn profi (pan ofynnir iddo wneud hynny) cywirdeb unrhyw ffeithiau neu ffigurau o'r fath ar sail Llyfr Agored er bodlonrwydd rhesymol yr Asiantaeth.

#### 16 **Datrys anghydfod**

- 16.1 Bydd yr holl anghydfodau a gwahaniaethau sy'n codi o'r Weithred hon neu'n gysylltiedig â hi (**Anghydfod**) yn cael eu datrys yn unol â thelerau'r Amod 16 hwn.
- 16.1.1 Pe bai'r Darparwr neu'r Asiantaeth yn ystyried bod Anghydfod yn bodoli, bydd y parti perthnasol yn cyflwyno hysbysiad i'r parti arall (**Hysbysiad o Anghydfod**) yn rhoi manylion cryno'r Anghydfod, ac, yn gyntaf, bydd y partïon yn gwneud ymdrechion rhesymol i ddatrys Anghydfod o'r fath yn gyfeillgar ac yn ddidwyll ac yn unol â'r Amod 16 hwn.
- 16.1.2 Bydd cynrychiolwyr y partïon yn cyfarfod o fewn pump (5) Diwrnod Gwaith (neu gyfnod hirach nad yw'n fwy nag ugain (20) Diwrnod Gwaith fel y gall y partïon gyuno) ar ôl derbyn Hysbysiad o Anghydfod.
- 16.1.3 Os nad oes unrhyw gynrychiolwyr y ddau barti ar gael i gyfarfod o fewn y cyfnod a nodwyd yn Amod 16.1.2 neu mae'r cynrychiolwyr yn methu â chytuno ar ddatrysiad unfrydol i'r Anghydfod mewn cyfarfod o'r fath, caiff yr Anghydfod ei gyfeirio at brif weithredwyr (neu ddirprwyon a enwebwyd) y Darparwr a'r Asiantaeth (y **Prif Weithredwyr**).
- 16.1.4 Bydd y Prif Weithredwyr yn cyfarfod o fewn deg (10) Diwrnod Gwaith (neu gyfnod hirach nad yw'n fwy nag ugain (20) Diwrnod Gwaith fel y gall

y partïon gytuno) i gyfeiriad o'r fath er mwyn ceisio datrys yr Anghydfod. Bydd unrhyw ddatrysiad unfrydol gan y Prif Weithredwyr yn cael ei gofnodi'n ysgrifenedig ac yn cael ei lofnodi ganddynt a bydd yn derfynol ac yn orfodol oni bai fod y partïon yn cytuno fel arall.

16.1.5 Os yw'r Anghydfod yn parhau heb ei ddatrys ar ôl deg (10) Diwrnod Gwaith yn dilyn cyfeiriad at y Prif Weithredwyr, mae'n rhaid ymdrin ag Anghydfod o'r fath yn unol ag Amod 16.2.

16.2 O dan yr amgylchiadau a ragwelwyd yn Amod 16.1.5, bydd y partïon yn ceisio datrys yr Anghydfod drwy gyfryngu yn unol â Gweithdrefn Gyfryngu Model CEDR. Oni bai fod y partïon yn cytuno fel arall, bydd y cyfryngwr yn cael ei enwebu gan CEDR. Mae'r partïon yn cytuno:

16.2.1 er mwyn dechrau ar gyfryngu, mae'n rhaid i barti roi hysbysiad ysgrifenedig (**hysbysiad dull amgen o ddatrys anghydfod neu ADR**) i'r parti arall sy'n destun yr Anghydfod yn gofyn am gyfryngu. Dylid anfon copi o'r cais at CEDR.

16.2.2 Bydd y cyfryngu yn dechrau ddim yn hwyrach nag wyth diwrnod ar hugain (28) ar ôl dyddiad yr hysbysiad ADR; ac

16.2.3 ac eithrio pan fyddai'r hawl i gychwyn achos yn cael ei niweidio gan oedi, ni all unrhyw barti gychwyn unrhyw achosion llys mewn perthynas ag unrhyw anghydfod sy'n codi o'r Weithred hon tan fod ymgais wedi'i gwneud i ddatrys yr anghydfod drwy gyfryngu a naill ai bod y cyfryngu wedi terfynu neu mae'r parti arall wedi methu â chymryd rhan yn y cyfryngu.

## 17 **Dim asiantaeth**

17.1 Ni fydd unrhyw beth yn y Weithred hon neu fel arall yn cael ei ddal, ei awgrymu neu ei farnu i ffurfio partneriaeth, menter ar y cyd neu gymdeithas arall neu, oddieithr a ddarparwyd yn benodol, perthynas penadur ac asiant rhwng y partïon.

17.2 Bydd y Darparwr bob amser yn annibynnol ac ni chaiff unrhyw beth yn y Weithred hon ei ddehongli fel creu perthynas cyflogwr a chyflogai rhwng yr Asiantaeth a'r Darparwr. Ni fydd y Darparwr nac unrhyw rai o'i gyflogeion ar unrhyw adeg yn cyfrif ei hun neu eu hunain fel cyflogai yr Asiantaeth.

## 18 **Aseinio ac is-gontractio**

18.1 Bydd gan yr Asiantaeth yr hawl i drosglwyddo neu aseinio'r Weithred gyfan hon neu ran ohoni.

18.2 Ni fydd hawl gan y Darparwr i drosglwyddo neu aseinio'r Weithred gyfan hon neu ran ohoni.

## 19 **Eithrio hawliau trydydd parti**

Ac eithrio pan ddarperir yn benodol fel arall, ni fydd gan unrhyw unigolyn nad yw'n barti i'r Weithred hon yr hawl i weithredu unrhyw delerau'r Weithred hon yn rhinwedd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 yn unig.

## 20 Cytundeb cyfan

- 20.1 Mae'r Weithred hon a'r amodau a gynhwysir ynddi ynghyd â'r Atodlenni ac Atodiadau yn ffurfio'r cytundeb cyfan rhwng y partïon a gellid ond ei amrywio neu ei addasu yn ysgrifenedig drwy gytundeb a weithredwyd yn briodol ar ran y partïon.
- 20.2 Mae'r Darparwr yn cydnabod drwy hyn, oddieithr yr hyn y nodwyd neu y cyfeiriwyd ato yn y Weithred hon, na wnaed unrhyw gynrychioliadau gan yr Asiantaeth nac ar ei rhan o ba bynnag natur y mae'r Darparwr yn ymrwymo i'r Weithred hon ar eu sail.

## 21 Hysbysiadau

- 21.1 Bydd unrhyw hysbysiad a roddir trwy hyn yn ysgrifenedig a chaiff ei gyflwyno yn ddigonol os caiff ei ddsbarthu â llaw ac y derbyniwyd derbynneb gan y derbynnydd, ei anfon drwy ffacsibili (ond nid drwy bost electronig) neu ei anfon gan y Gwasanaeth Dosbarthu Cofnodedig wedi'i gyfeirio yn achos y naill barti neu'r llall at swyddfa gofrestrdig y parti arall fel y nodwyd ar ddechrau'r Weithred hon neu i'r fath gyfeiriadau eraill neu at unrhyw rifau ffacs fel y gallai'r naill barti neu'r llall o dro i dro hysbysu'r llall yn ysgrifenedig amdanynt ar yr amod bod cyfeiriad arall o'r fath yng Nghymru a Lloegr.
- 21.2 Tybir bod unrhyw hysbysiad a roddwyd gan yr anfonwr wedi'i dderbyn gan y derbynnydd:
- 21.2.1 os caiff ei ddsbarthu â llaw, pan gaiff ei ddsbarthu i'r derbynnydd;
- 21.2.2 os caiff ei ddsbarthu gan y Gwasanaeth Dosbarthu Cofnodedig, tri (3) diwrnod Gwaith ar ôl ei ddsbarthu gan gynnwys y dyddiad postio;
- 21.2.3 os caiff ei ddsbarthu drwy drosglwyddiad ffacsibili, ar ôl i offer yr anfonwr greu adroddiad trosglwyddo yn nodi bod y ffacs wedi'i anfon at rif ffacs y derbynnydd yn llawn heb wall ar yr amod bod copi cadarnhad yn cael ei ddsbarthu â llaw o fewn wyth awr a deugain (48) o ddsbarthu'r trosglwyddiad ffacsibili;

**ar yr amod**, os yw'r hysbysiad yn cael ei ddsbarthu neu ei dderbyn ar ddiwrnod nad yw'n Ddiwrnod Gwaith neu ar ôl 4.00pm, yr ystyrir ei fod wedi'i dderbyn am 9.00am ar y Diwrnod Gwaith canlynol.

## 22 Toradwyedd

Pe bai unrhyw ymadrodd, amod neu ddarpariaeth a gynhwysir yn y Weithred hon yn cael ei ddal yn annilys, anghyfreithlon neu'n anorfodadwy i unrhyw raddau, bydd ymadrodd, amod neu ddarpariaeth o'r fath i'r graddau hynny yn cael ei heithrio o'r Weithred hon ac ni fydd yn effeithio ar ddilysrwydd, cyfreithlondeb neu orfadadwyedd y rhannau o'r Weithred hon sy'n weddill.

## 23 Hawliau cronus a gorfodi

Mae unrhyw hawliau a rhwymedïau y darperir ar eu cyfer yn y Weithred hon, pa un ai bod yn ffafrio'r Asiantaeth neu'r Darparwr, yn gronnus ac yn ychwanegol at unrhyw hawliau neu rwymedïau pellach a allai fod ar gael fel arall i'r partïon hynny.

## 24 **Hawliidiad**

- 24.1 Nid yw methiant unrhyw barti ar unrhyw un adeg i orfodi unrhyw ddarpariaeth o'r Weithred hon mewn unrhyw ffordd yn effeithio ar ei hawl wedi hynny i ofyn am berfformiad cyflawn gan y parti arall, ac ni all hawliidiad unrhyw doriad neu unrhyw ddarpariaeth gael ei gymryd neu ei ddal fel hawliidiad o unrhyw doriad dilynol o unrhyw ddarpariaeth neu fod yn hawliidiad o'r ddarpariaeth ei hun.
- 24.2 Pan fod unrhyw rwymedigaeth gan barti i'w chyflawni o fewn cyfnod penodol yn y Weithred hon, ystyrir bod y rhwymedigaeth honno yn parhau ar ôl yr amser hwnnw os yw'r parti yn methu â chydymffurfio â'r rhwymedigaeth honno o fewn yr amser.
- 24.3 Mae'n rhaid i unrhyw hawliidiad neu ryddhau unrhyw hawl neu rwymedi y naill barti neu'r llall gael ei roi yn benodol yn ysgrifenedig a'i lofnodi gan y parti hwnnw a:
- 24.3.1 bydd yn cael ei gyfyngu i'r amgylchiadau penodol y cafodd ei roi;
  - 24.3.2 ni fydd yn effeithio ar unrhyw orfodi tebyg nac unrhyw hawl arall; ac
  - 24.3.3 (oni bai y mynegir ei fod yn ddi-alw'n-ôl) gellir ei alw'n-ôl ar unrhyw adeg yn ysgrifenedig.

## 25 **Cysylltiadau cyhoeddus a chyhoeddusrwydd**

Bydd y Darparwr yn sicrhau bod gofynion yr Asiantaeth o dro i dro yn ymwneud â chysylltiadau cyhoeddus a chyhoeddusrwydd fel yr hysbysir i'r Darparwr o dro i dro neu fel arall fel y cynhwysir yn y Rheoliadau yn cael eu harsylwi a'u gweithredu o ran pob Anedd Gymwys.

## 26 **Diogelu Data**

- 26.1 At ddibenion yr Amod hwn, bydd gan "Data Personol", "Prosesydd Data", "Gwrthrych y Data", "Rheolwr Data" a "Proses" yr un ystyrion ag y priodolwyd iddynt yn Neddf Diogelu Data 1998 (y "Ddeddf Diogelu Data") fel y'i diwygiwyd neu ei ail-ddeddfwyd o dro i dro.
- 26.2 Mae'r Darparwr yn gwarantu ac yn cynrychioli ei fod wedi casglu'r holl gofrestrïadau, hysbysiadau a chydysniadau angenrheidiol sy'n ofynnol gan y Ddeddf Diogelu Data i Brosesu Data Personol at ddibenion cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon.
- 26.3 Mae'r Darparwr yn ymrwymo, i'r graddau y mae'r Darparwr a/neu unrhyw rai o'i gyflogeion yn derbyn, â mynediad at a/neu mae'n ofynnol iddo/iddynt Brosesu Data Personol ar ran yr Asiantaeth ("Data Personol yr Asiantaeth") at ddibenion cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon, bydd bob amser yn cydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf Diogelu Data o'r cyfnod y mae mewn grym, gan gynnwys heb gyfyngiad ar yr Egwyddorion Diogelu Data a nodwyd yn Atodlen 1 y Ddeddf Diogelu Data. Yn benodol, mae'r Darparwr yn cytuno i gydymffurfio â'r gofynion a rhwymedigaethau a osodir ar y Rheolwr Data yn y Seithfed Egwyddor Diogelu Data a nodir yn y Ddeddf Diogelu Data sef:
- 26.3.1 bydd gan y Darparwr ar bob adeg berthnasol fesurau diogelwch



technegol a sefydliadol priodol ar waith, ac yn eu cynnal, a gynlluniwyd i ddiogelu yn erbyn dinistr damweiniol neu anghyfreithlon, colled ddamweiniol, newid, datgeliad anawdurdodedig neu anghyfreithlon neu fynediad i Ddata Personol yr Asiantaeth, a bydd unrhyw unigolyn y mae'n awdurdodi i gael mynediad at unrhyw Ddata Personol yr Asiantaeth yn parchu ac yn cynnal cyfrinachedd a diogelwch Data Personol yr Asiantaeth. Mae hyn yn cynnwys y rhwymedigaeth i gydymffurfio ag unrhyw bolisiau rheoli cofnodion, gweithredol a/neu ddiogelu gwybodaeth a weithredwyd gan yr Asiantaeth, wrth iddo gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon, ar eiddo'r Asiantaeth a/neu wrth gael mynediad at ei systemau gwybodaeth â llaw a/neu awtomataidd. Bydd y mesurau hyn yn briodol i'r niwed a allai ddeillio o unrhyw Brosesu anawdurdodedig, colled ddamweiniol, dinistr neu niwed i'r Data Personol y dylid ei ddiogelu;

- 26.3.2 bydd y Darparwr ond yn Prosesu Data Personol ar gyfer ac ar ran yr Asiantaeth at ddiben cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon, neu fel ag y bo'n ofynnol gan Ddeddfwriaeth neu unrhyw Gorff Rheoleiddio, a phan fo'n angenrheidiol dim ond yn ôl cyfarwyddiadau ysgrifenedig gan yr Asiantaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Diogelu Data;
  - 26.3.3 bydd y Darparwr yn caniatáu i'r Asiantaeth archwilio cydymffurfiaeth y Darparwr â gofynion yr Amod 26 hwn gyda rhybudd rhesymol a/neu, yn ôl cais gan yr Asiantaeth, darparu tystiolaeth i'r Asiantaeth o gydymffurfiaeth y Darparwr â'r rhwymedigaethau o fewn yr Amod 26 hwn.
- 26.4 Mae'r Darparwr yn ymgymryd i beidio â rhyddhau neu drosglwyddo unrhyw Ddata Personol yr Asiantaeth i unrhyw drydydd parti heb gydsyniad ysgrifenedig blaenorol yr Asiantaeth oddieithr, heb leihau effaith Amod 26.3, bydd gan y Darparwr yr hawl i ryddhau Data Personol yr Asiantaeth i gyflogeion y mae datgeliad o'r fath yn rhesymol angenrheidiol er mwyn i'r Darparwr gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon, neu i'r graddau sy'n ofynnol drwy orchymyn llys.
- 26.5 Bydd y Darparwr yn:
- 26.5.1 cymryd camau rhesymol er mwyn sicrhau dibynadwyedd unrhyw Bersonél y Darparwr sydd â mynediad i'r Data Personol;
  - 26.5.2 sicrhau bod holl Bersonél y Darparwr y mae'n ofynnol iddynt gael mynediad i'r Data Personol yn cael eu hysbysu o natur gyfrinachol y Data Personol ac yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a nodir yn yr Amod 26 hwn;
  - 26.5.3 sicrhau na fydd unrhyw Bersonél y Darparwr yn cyhoeddi, datgelu neu'n dadlennu unrhyw Ddata Personol i unrhyw drydydd parti oni bai y cânt eu cyfeirio yn ysgrifenedig i wneud hynny gan yr Asiantaeth;
  - 26.5.4 darparu disgrifiad ysgrifenedig o'r dulliau technegol a sefydliadol a ddefnyddir gan y Darparwr ar gyfer Prosesu Data Personol (o fewn yr amserlenni sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth); a
  - 26.5.5 pheidio â Phrosesu Data Personol y tu hwnt i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd heb gydsyniad ysgrifenedig blaenorol gan yr Asiantaeth a,

ble y bo'r Asiantaeth yn cydsynio i drosglwyddiad, i gydymffurfio â:

- (a) rhwymedigaethau'r Rheolwr Data o dan yr Wythfed Egwyddor Diogelu Data a nodwyd yn Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 1998 drwy ddarparu lefel briodol o ddiogelwch i unrhyw Ddata Personol a drosglwyddir; ac
- (b) unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol yr hysbysir iddo gan yr Asiantaeth.

26.6 Mae'r Darparwr yn cytuno i wneud yr holl ymdrechion rhesymol i gynorthwyo'r Asiantaeth i gydymffurfio â rhwymedigaethau o'r fath fel y'u gosodir ar yr Asiantaeth gan y Ddeddf Diogelu Data. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae hyn yn cynnwys y rhwymedigaeth:

- 26.6.1 i ddarparu mynediad i'r Asiantaeth o'r math y gallai fod ei angen yn rhesymol o dro i dro i'r holl Ddata Personol a storiwyd neu a Broseswyd wrth gyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Weithred hon, er mwyn galluogi'r Asiantaeth i gyflawni ei rhwymedigaethau i ymateb i geisiadau am fynediad gan Wrthrychau'r Data o dan y Ddeddf Diogelu Data;
- 26.6.2 i ddarparu cymorth rhesymol i'r Asiantaeth wrth gydymffurfio ag unrhyw gais am wybodaeth a gyflwynwyd i'r Asiantaeth o dan Adran 7 y Ddeddf Diogelu Data;
- 26.6.3 hysbysu'r Asiantaeth (o fewn pum Diwrnod Gwaith) ynglŷn â derbyn cais o'r fath a dderbyniwyd gan y Darparwr o dan Adran 7 y Ddeddf Diogelu Data neu gŵyn neu gais yn ymwneud â rhwymedigaethau'r Asiantaeth o dan y Ddeddf Diogelu Data a pheidio â datgelu neu ryddhau unrhyw wybodaeth (gan gynnwys Data Personol yr Asiantaeth) mewn ymateb i gais neu gŵyn o'r fath heb ymgynghori yn gyntaf â'r Asiantaeth, pan fo'r wybodaeth a geisir yn ymwneud â'r Asiantaeth, ei chyflogeion, ei hasiantiaid, a/neu ei gweithrediadau busnes;
- 26.6.4 darparu cydweithrediad a chymorth llawn i'r Asiantaeth mewn perthynas ag unrhyw gŵyn neu gais a wnaed, gan gynnwys drwy:
  - (a) ddarparu manylion llawn y gŵyn neu'r cais i'r Asiantaeth;
  - (b) cydymffurfio â chais mynediad i ddata o fewn yr amserlenni perthnasol a nodwyd yn y Ddeddf Diogelu Data ac yn unol â chyfarwyddiadau'r Asiantaeth;
  - (c) darparu Data Personol sydd ganddo mewn perthynas â Gwrthrych y Data i'r Asiantaeth (o fewn yr amserlenni sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth); a
  - (d) darparu unrhyw wybodaeth y gwnaeth yr Asiantaeth gais amdani i'r Asiantaeth;

26.7 Bydd y Darparwr bob amser yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data ac ni fydd yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Weithred hon yn y fath fodd fel ei fod yn achosi i'r Asiantaeth dorri unrhyw rai o'i rhwymedigaethau perthnasol o dan y Ddeddf

## Diogelu Data.

- 26.8 Bydd y Darparwr yn digolledu'r Asiantaeth yn erbyn yr holl hawliadau ac achosion a'r holl rwymedigaethau, colledion, costau a threuliau a ysgwyddir mewn cysylltiad â'r rhain gan yr Asiantaeth o ganlyniad i ddinistr gan y Darparwr a/neu niwed i unrhyw Ddata Personol yr Asiantaeth a Broseswyd gan y Darparwr, ei gyflogeion a'i asiantiaid, neu unrhyw doriad neu fethiant arall i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau yn y Ddeddf Diogelu Data a/neu yr Amod 26 hwn gan y Darparwr, ei gyflogeion, ei asiantiaid neu ei is-gontractwyr.
- 26.9 Bydd y Darparwr yn penodi ac yn nodi unigolyn o fewn ei sefydliad a awdurdodwyd i ymateb i ymholiadau gan yr Asiantaeth yn ymwneud â Phrosesu Data Personol yr Asiantaeth gan y Darparwr a bydd yn delio â'r holl ymholiadau gan yr Asiantaeth yn ymwneud â Data Personol yn brydlon, gan gynnwys y rheini gan y Comisiynydd Gwybodaeth a bydd i'r graddau sy'n rhesymol ofynnol yn cydweithredu a chynorthwyo er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gydag unrhyw hawliau i fynediad i ddata gan Wrthrychau'r Data, neu ei gywiro, ei flocio, ei atal neu ei ddileu, yn ymwneud â Data Personol yr Asiantaeth ac er mwyn amddiffyn neu reoli unrhyw gamau gorfodi neu asesiad gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu unrhyw awdurdod cymwys arall mewn perthynas â hynny.
- 26.10 Mae'r Darparwr yn ymrwmo i gynnwys rhwymedigaethau, nad ydynt yn llai beichus na'r rhai a nodir yn yr Amod 26 hwn, yn yr holl drefniadau contractaidd gyda asiantiaid a gyflogir gan y Darparwr wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon.

## 27 **Cydweithredu**

- 27.1 Mae pob parti yn ymrwmo i gydweithredu yn ddidwyll gyda'r llall er mwyn hwyluso perfformiad priodol y Weithred hon ac, yn benodol (yn destun Amod 27.2):
- 27.1.1 bydd yn gwneud yr holl ymdrechion rhesymol i osgoi anghydfodau a honiadau diangen yn erbyn y parti arall;
- 27.1.2 ni fydd yn ymyrryd â hawliau'r parti arall (na'i gyflogeion, asiantiaid, cynrychiolwyr, contractwyr neu is-gontractwyr) wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon nac mewn unrhyw ffordd arall yn llesteirio neu'n atal y parti arall (na'i gyflogeion, asiantiaid, cynrychiolwyr, contractwyr neu is-gontractwyr) rhag cyflawni'r rhwymedigaethau hynny ar yr amod nad yw'r ddarpariaeth hon yn atal y naill barti na'r llall rhag arfer ei hawliau penodol o dan y Weithred hon nac unrhyw gytundeb arall yn ymwneud â'r Anheddau.
- 27.2 Ni fydd unrhyw beth yn Amod 27.1:
- 27.2.1 yn ymyrryd â hawl pob parti i drefnu ei faterion ei hun ym mha bynnag fodd y mae'n barnu sy'n addas er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon ac mewn cysylltiad â'r Anheddau yn y modd sydd fwyaf effeithiol ac effeithlon yn ei farn ef; neu
- 27.2.2 yn rhyddhau'r naill barti neu'r llall o unrhyw rwymedigaeth a gynhwysir yn y Weithred hon.

- 27.3 Heb leihau effaith gyffredinol y blaenorol, bydd y Darparwr yn cydweithredu'n llawn ac mewn ffordd amserol gydag unrhyw gais rhesymol o dro i dro:
- 27.3.1 gan unrhyw archwilydd (naill ai'n fewnol neu'n allanol) neu Gorff Rheoleiddio'r Asiantaeth i ddarparu dogfennau, neu sicrhau darpariaeth dogfennau, yn ymwneud â'r Anheddau, ac i ddarparu, neu sicrhau darpariaeth, unrhyw esboniad ar lafar neu'n ysgrifenedig yn ymwneud â'r un peth; a/neu
  - 27.3.2 yr Asiantaeth ble y bo'n ofynnol i'r Asiantaeth o dan unrhyw ddeddfwriaeth i ddarparu unrhyw ddogfen yn ymwneud â'r Anheddau i unrhyw unigolyn.
- 27.4 Ni fydd y Darparwr, a bydd yn gwneud yr holl ymdrechion rhesymol i sicrhau na fydd ei gyflenwyr ac is-gontractwyr, yn fwiadol yn gwneud neu'n peidio â gwneud unrhyw beth mewn perthynas â'r Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru, yr Anheddau neu yn ystod ei weithgareddau eraill a allai niweidio enw da'r Asiantaeth neu ddenu cyhoeddusrwydd niweidiol i'r Asiantaeth.
- 27.5 Ni fydd unrhyw barti yn cyhoeddi unrhyw ddatganiad, ar lafar neu'n ysgrifenedig, yn ymwneud â'r parti arall a allai niweidio enw da'r parti arall hwnnw neu unrhyw rai o'i swyddogion neu gyflogeion.

## 28 **Y gyfraith lywodraethu ac Awdurdodaeth**

- 28.1 Bydd y Weithred hon ac unrhyw anghydfod neu hawliad (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau nad ydynt yn gontractaidd) sy'n codi ohoni neu mewn cysylltiad â hi neu ei chynnwys neu ffurf yn cael ei llywodraethu a'i dehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr.
- 28.2 Mae pob parti yn cytuno yn ddi-arlw'n-ôl y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth unigryw i setlo unrhyw anghydfod neu hawliad (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau nad ydynt yn gontractaidd) sy'n codi o neu mewn cysylltiad â'r Weithred hon neu ei chynnwys neu ffurf.

## 29 **Goroesiad y Weithred hon**

- 29.1 Cyhyd ag y bo unrhyw rai o hawliau a phwerau'r Asiantaeth a ddarperir ar eu cyfer yn y Weithred hon yn cael eu harfer neu'n arferadwy ar ôl terfynu neu ddiweddu'r Weithred hon, bydd darpariaethau'r Weithred hon yn rhoi hawliau a phwerau o'r fath yn goroesi ac yn parhau mewn grym llawn ac effaith er gwaethaf terfynu neu ddiweddu o'r fath.
- 29.2 Cyhyd ag y bo unrhyw rai o rwymedigaethau'r Darparwr a ddarperir ar eu cyfer yn y Weithred hon heb eu cyflawni ar ôl terfynu neu ddiweddu'r Weithred hon, bydd darpariaethau'r Weithred hon yn goroesi ac yn parhau mewn grym llawn ac effaith er gwaethaf terfynu neu ddiweddu o'r fath.

Ymrwymwyd i'r Weithred hon rhwng y partion fel gweithred ar y dyddiad a nodwyd ar y dechrau.

Llofnodwyd fel gweithred gan **Help to Buy (Wales) Ltd** )  
yn gweithredu drwy )  
[ ], cyfarwyddwr )  
a [ ],  
cyfarwyddwr )  
NEU ei ysgrifennydd )

Cyfarwyddwr

Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd

Llofnodwyd fel gweithred gan **Cliciwch yma i osod testun.**  
yn gweithredu drwy

[ ], cyfarwyddwr )  
a [ ],  
cyfarwyddwr )  
NEU ei ysgrifennydd )

Cyfarwyddwr

Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd

**Atodlen 1**  
**Manylion y**  
**Rhagolwg**

## Atodlen 2

### Ffurflen Diweddariad Chwarterol ac Adroddiad Rhagolwg

**Help to Buy (Wales) Limited Shared Equity Scheme**

**Quarterly Reporting Information** Dewiswch eich iaith penodol / Choose your preferred language: Saesneg / English ▼


**Registered Builder Details**

Please complete all white cells

Registered Builder Name	<input type="text"/>
Company (or other) Registration Number:	<input type="text"/>
Quarter Ending (DDMMYY)	<input type="text"/>
Reason for and action to mitigate underperformance	<input type="text"/>
Any breach of any obligation or warranty under the Administration Agreement or change in warranted information	<input type="text"/>
Any co-operation or assistance required from Help to Buy (Wales) Limited	<input type="text"/>
Reasons for any material short fall in completion since 2 Jan 2014 and proposals to rectify	<input type="text"/>
Details of any significant event as defined in the contract	<input type="text"/>
Details of any matter which may entitle Help to Buy (Wales) Limited to terminate the Administration Agreement	<input type="text"/>


**Confirmation Statement**

Name and position of person filling in the form



Cymorth i  
Brynu Cymru  
Help to  
Buy Wales

Cefnogi gan  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Please complete all white cells

Site Name	Local authority for forecast HTB (Wales) Ltd sales	Postcode		Total number of units on site	Jobs created/safeguarded	Year	numbers of units				£total sale price of units					
		First 4 digits	Remaining digits				Actual Market Sales Values - number of units				Actual Market Sales £					
							Q1	Q2	Q3	Q4	Q1	Q2	Q3	Q4		
1						2016-2017										
						2017-2018										
						2018-2019										
						2020-2021										
2						2016-2017										
						2017-2018										
						2018-2019										
						2020-2021										
3						2016-2017										
						2017-2018										
						2018-2019										
						2020-2021										
4						2016-2017										
						2017-2018										
						2018-2019										
						2020-2021										
5						2016-2017										
						2017-2018										
						2018-2019										
						2020-2021										
Totals						0	0	0	0	0	0	0	0	0		

+ Add new site

Help to Buy (Wales) Ltd will review the applicant's sales forecasts (purchaser legal completions) in order to determine likely demand for the scheme. Help to Buy (Wales) Ltd will use these estimates, in conjunction with the availability of funding, to manage uptake for the scheme. Due to the demand-led nature of this initiative, these forecasts are indicative, and Help to Buy (Wales) Ltd reserve the right to deviate from these forecasts and manage uptake accordingly.



### Atodlen 3 –

#### Rhag-amodau

	Rhag-amodau
1	Mae'r Darparwr wedi darparu tystysgrif i'r Asiantaeth oddi wrth ei gyfreithiwr ei fod wedi gwirio hunaniaeth y Darparwr yn unol â Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007 (fel y'u diwygiwyd neu ailddeddfwyd):
2	Cadarnhad oddi wrth y Darparwr fod yr holl faterion a gynrychiolwyd ac a warantwyd gan y Darparwr o dan y Weithred hon yn wir ac yn gywir.
3	Nid oes unrhyw Ddiffyg daliad y Darparwr wedi digwydd ac nid ymgymerir ag unrhyw weithdrefn datrys anghydfod yn unol â'r Weithred.
4	Mae'r Darparwr wedi cadarnhau i'r Asiantaeth:  (a) ei rif cyfeirnod caniatâd credyd defnyddiwr yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a bod caniatâd o'r fath yn gyfredol, yn ddilys ac mewn grym; NEU  (b) bod y Darparwr wedi derbyn cyngor cyfreithiol yn cadarnhau nad yw'n ofynnol i gael caniatâd credyd defnyddiwr gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.
5	Hunanardystiad gan y Darparwr:  (a) bod y Darparwr yn cydymffurfio â'r Gofynion Hysbysebu;  (b) ni wnaed unrhyw gwynion gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â chaniatâd credyd defnyddiwr y Darparwr gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (os yw'n berthnasol) neu gydymffurfiaid â'r Gofynion Hysbysebu;  (c) mae'r annedd sydd ar werth yn Annedd Gymwys.

## Atodlen 4

### Gwarantiadau

#### 1 Corffori dyledus a vires

- 1.1 Mae'r Darparwr wedi'i gorffori'n ddyledus o dan gyfraith Cymru a Lloegr ac mae ganddo'r pŵer corfforaethol i fod yn berchen ar ei asedau a chynnal y busnes mae'n ei redeg, neu'n bwriadu ei redeg.
- 1.2 Mae gan y Darparwr:
- 1.2.1 y pŵer i ymrwymo i ac ymarfer ei hawliau a chyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon; ac
- 1.2.2 mae wedi cymryd yr holl gamau gweithredu angenrheidiol i awdurdodi ei weithredu drwyddo a chyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon.
- 1.3 Nid yw'r Darparwr yn destun unrhyw rwymedigaeth arall, y bydd cydymffurfiaeth â hi yn cael Effaith Niweidiol Sylweddol, neu'n debygol o gael, ar allu'r Darparwr i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon.

#### 2 Gorfodi a dilysrwydd y rhwymedigaethau

- 2.1 Mae rhwymedigaethau'r Darparwr o dan y Weithred hon yn cynnwys ei rhwymedigaethau cyfreithiol, dilys a gorfodol, sy'n orfodadwy yn unol â'i thelerau.
- 2.2 Nid yw gweithredu, cyflawni a pherfformio'r Weithred hon gan y Darparwr yn:
- 2.2.1 mynd yn groes i unrhyw ddeddf neu ddeddfwriaeth berthnasol neu unrhyw ddyfarniad, gorchymyn neu archddyfarniad unrhyw lys sydd ag awdurdodaeth drosto, cyhyd ag y bo'n hysbys;
- 2.2.2 gwrthdaro yn erbyn, neu'n arwain at unrhyw dorri ar unrhyw delerau, neu'n cynnwys diffyg o dan unrhyw gytundeb neu offeryn arall y mae'n barti iddo neu unrhyw drwydded neu awdurdodiad arall mae'n destun iddo neu yr ymrwymwyd iddo neu unrhyw o'i eiddo; neu
- 2.2.3 mynd yn groes i'w gyfansoddiad neu'n gwrthdaro yn ei erbyn.
- 2.3 Cyhyd ag y bo'r Darparwr yn ymwybodol, nid yw'n torri neu heb gyflawni unrhyw gytundeb y mae'n barti iddo neu mae'n ymrwymedig iddo neu unrhyw rai o'i asedau mewn modd sy'n effeithio neu a allai effeithio ar ei allu i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon.
- 2.4 Ni fydd unrhyw gytundebau neu ddogfennau eraill yn bodoli sy'n disodli neu'n ymwneud â'r Weithred hon a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar ei dehongliad neu ei gweithrediad.
- 2.5 Mae'r holl gydsyniadau sy'n ofynnol gan y Darparwr mewn perthynas â gweithredu, cyflawni, cyhoeddi, dilysu neu orfodi'r Weithred hon wedi cael eu sicrhau ac nid ydynt wedi cael eu tynnu'n ôl.

### 3 **Dim ymglyfreitha**

Hyd y gŵyr y Darparwr, nid oes unrhyw gais yn cael ei hawlio ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw ymglyfreitha, cyflafareddiad neu achos gweinyddol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, neu hyd y gŵyr y Darparwr, dan ystyriaeth neu'n cael ei fygwth yn erbyn y Darparwr neu unrhyw rai o'i asedau a allai gael Effaith Niweidiol Sylweddol ar allu'r Darparwr i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Weithred hon.

### 4 **Gwybodaeth a Ddarperir i'r Asiantaeth**

4.1 Mae'r holl wybodaeth a ddarparwyd gan neu ar ran y Darparwr i'r Asiantaeth neu ei hasiantiaid neu gyflogeion mewn cysylltiad â chynnig y Darparwr o ran darpariaeth y Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru gan y Darparwr neu yn ystod y trafodaethau dilynol ar adeg ei chyflwyno cyhyd ag y bo'r Darparwr yn ymwybodol (neu y dylai fod yn ymwybodol), ar ôl gwneud yr holl ymholiadau rhesymol a phriodol, yn wir, yn gyflawn ac yn gywir ym mhob achos;

4.2 Mae'r Darparwr wedi hysbysu'r Asiantaeth o unrhyw newid perthnasol a ddigwyddodd ers y dyddiad cyflwyno y mae'r Darparwr yn ymwybodol ohono (neu y dylai fod yn ymwybodol ohono) ar ôl gwneud yr holl ymholiadau rhesymol a phriodol, a fyddai'n gwneud i'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraffau 4.1 a/neu 4.4 yn anwir, yn anghyflawn neu'n anghywir mewn unrhyw ffordd sylweddol; ac

4.3 Nid yw'r Darparwr yn ymwybodol o unrhyw ffeithiau neu amgylchiadau perthnasol nad ydynt wedi cael eu datgelu i'r Asiantaeth a allai, pe baent yn cael eu datgelu, effeithio'n sylweddol ac yn negyddol ar benderfyniad unrhyw un sy'n ystyried contract gyda'r Darparwr neu beidio.

4.4 Mae'r holl wybodaeth a gyflwynwyd i'r Asiantaeth yn ystod y Weithred hon cyhyd ag y bo'r Darparwr yn ymwybodol ohoni (neu y dylai fod yn ymwybodol ohoni), ar ôl gwneud yr holl ymholiadau rhesymol a phriodol, yn gyflawn ac yn gywir ym mhob achos.

### 5 **Diffyg daliadau'r Darparwr**

5.1 Hyd y gŵyr y Darparwr, nid yw unrhyw achosion neu gamau eraill wedi eu cymryd a heb eu cyflawni (nac a fygythiwyd, hyd y gŵyr y Darparwr) ar gyfer dirwyn i ben neu ddiddymu neu ar gyfer penodi derbynnnydd, derbynnnydd gweinyddol, gweinyddwr, diddymwr neu swyddog tebyg mewn perthynas ag unrhyw rai o'i asedau neu gyllid a, heb gyfyngiad, ni fu unrhyw Ddigwyddiad Methdaliad mewn perthynas â'r Darparwr.

5.2 Drwy ymrwymo i'r Weithred hon, nid yw'r Darparwr wedi cyflawni unrhyw Weithred Waharddedig.

5.3 Heb leihau effaith paragraffau 5.1 a 5.2 uchod, nid oes unrhyw Ddiffyg daliad y Darparwr wedi digwydd nac yn parhau.

### 6 **Hawliau trydydd parti a digwyddiadau cyfamserol**

6.1 Nid yw unrhyw unigolyn sydd ag unrhyw arwystl neu ffurf arall o warant dros yr eiddo neu unrhyw asedau eraill y Darparwr wedi gorfodi neu gyflwyno hysbysiad o'i fwriad i weithredu gwarant o'r fath.

6.2 Nid yw'r Darparwr yn ymwybodol, ar ôl ymholiad priodol, o unrhyw beth sy'n bygwth llwyddiant neu gwblhad llwyddiannus bwriad neu ddiben y Weithred hon.

7 **Perchenogaeth Tir**

Mewn perthynas â phob Annedd Gymwys a nodwyd gan y Darparwr ar gyfer derbyn Cyllid Benthyciad Ecwiti yn y dyfodol, mae gan y Darparwr fuddiant cyfreithiol diogel mewn uned o'r fath.

8 **Cod Ymddygiad ar gyfer Adeiladwyr Tai**

Mae'r Darparwr wedi mabwysiadu a chydymffurfio gyda'r (a bydd yn parhau i fabwysiadu a chydymffurfio gyda'r) Cod Ymddygiad ar gyfer Adeiladwyr Tai o ran pob Annedd Gymwys.

## **Atodlen 5**

### **Ffurflen Gwybodaeth am Eiddo**

## **Atodlen 6**

### **Canllaw i Brynwyr**